

ECO'R WYDDFA

RHIF 294

Tachwedd 2002

PRIS 40c

Cymru – 2 Yr Eidal – 1

... sut effaith gaiff y gêm
fawr a'r bêl-droed y fro?

(Tudalen gefn)

Atgyfodi FFAIR NANT!

Ar ôl dros 80 mlynedd, mae'r Wyl yn ôl

Pensaer mewn welingtons mewn cae yn mesur twmpath a adawyd eiliadau ynghynt gan Blodwen y fuwch; dau gant o hwyaid plastig coch, melyn a glas yn nofio mewn afon; chwech o ddynion nobl yn gafael yn dynn am ei gilydd o dan orchudd blastig; ffarmwrs cryf mewn gwisg wen p.v.c. yn dringo polyn llithrig i fyrstio balwn; helpa drysor yn y tywyllwch. Na, nid cyfres newydd o Doctor Who, ond wythnos Ffair Nant yn Nant Peris!

Ffarwel hen ffair, dy ddyddiau fo
Heb rif, yn llawn anrhydedd;
Yn deilchion boed Y Wyddfa fawr
Pan gwrddi di â'th ddiwedd.

Hugh Lunt, 1912.

Dyna oedd proffwydoliaeth drist Hugh Lunt yn fuan wedi troad y ganrif ddiwethaf! Daeth y ffair i ben dan amgylchiadau anodd dros ddeugain mlynedd yn ôl ond aros wnaeth Yr Wyddfa – er gwaetha' bygythiad y bardd, er bod colled enbyd i'r pentref o golli traddodiad a oedd yn arbennig iawn i bobl Nant a'r ardal.

Wedi rhai blynyddoedd o drafod a hiraethu am ddyddiau da y ffair, penderfynwyd mai da o

beth fyddai atgyfodi 'Ffair Nant' a'i llusgo i brysurdeb yr unfed ganrif ar hugain.

Yn draddodiadol, ffair amaethyddol boblogaidd ydoedd ar y deunawfed o Fedi – amser i werthu cynnyrch amaethyddol a da byw, ond fe oedd hefyd yn amser i fwynhau



a chymdeithasu a dyna oedd y prif fwriad tu ôl i aildechrau'r ffair eleni – tynnu pobl at ei gilydd. Wrth gwrs, nid oedd modd cael sioe amaethyddol ond llwyddwyd i ail-greu'r hwyl a'r mwynhad trwy nifer o weithgareddau amrywiol.

Cafwyd rasmus a mabolgampau i dimau yn cynnwys tug-of-war, ras chwe choes, rowlio bêls a dringo'r polyn llithrig, ras hwyaid, cystadlaeuath twmpath y fuwch, stondinau, tombola ac India Roc Magi!, dawnasio gwerin (Dawnsyr Delyn) a nifer o gystadlaethau crefftiau. Wythnos lwyddiannus a hwyliog, pawb wedi mwynhau ac wedi blino! Dim rhyfedd i Hugh Lunt nodi:

Yn herwydd hyn, lawn digon yw
Un ffair yng nghorff y flwyddyn!

Mae un o gynghorau Bro'r Eco yn galw am fwy o heddweision mewn ardaloedd gwledig. Mae Cyngor Cymuned Llanddeiniolen yn pocni bod yr heddlu wedi colli cysylltiad hefo'r boblogaeth wledig ac eisiau gweld newid.

Gwnaed y pwyntiau yng Nghyfarfod Blynyddol Cynghorau Bro a Thref Cymru a gynhaliwyd yn Aberystwyth, pan roddodd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen ddau gynnig ymlaen.

Galw am Fwy o Blismyn i'r Fro

Bu'r Cynghorydd Len Jones yn traethu ar y cynnig yn gofyn i Awdurdodau'r Heddlu ailystyried eu polisi o blismona ein hardaloedd gwledig.

Cyfeiriodd at y newid syfrdanol mewn dulliau plismona yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yn unig fod yr adnoddau i'w gweld yn cael eu targedu at yr ardaloedd trefol, ond y mae cysylltu â'r heddlu yn anodd yn aml. Y mae'r heddlu

wedi colli cysylltiad â'r boblogaeth wledig. Yn wir mae sawl cnghraifft erbyn hyn ble mae'r heddwras ei hun yn teithio i'w waith o ardaloedd tu allan i ffiniau Arfon. Gan ei bod yn annhcyg y dosrannir camerau CCTV i'r ardaloedd gwledig, mae'n hanfodol fod yr heddlu yn 'cael eu gweld' yn ein hardaloedd. Cafodd y cynghorydd gefnogaeth gref yn y bleidlais wedi'r araith.

Bu'r Cynghorydd Richard Lloyd Jones yn traethu ar y cynnig o gyflwyno llais y cynghorydd lleol yn y broses o ddosrannu tai cyngor. Yr oedd yn destun amserol gan fod cynlluniau drafft y Cynllun Datblygu Lleol ar gael erbyn hyn.

Tcimlwyd fod gwcnidid yma gan mai ychydig o gyfle sydd gan dculuoedd ifanc lleol i
(Parhad ar dudalen 15)

ECO'R WYDDFA

**RHIF 294
TACHWEDD**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

Cadeirydd:
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Gesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Shioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Becons Eryri (870491)

LLANRWY: Eryl Roberts, 8 Bryn Mochlyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, TACHWEDD 18
Os gwelwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, TACHWEDD 28

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu a
Rhagfyr	Tachwedd 18	Tachwedd 28	Caeathro	Mr Clive James

Pobol Tu Ucha'r Giât

Syr,
Carwn ddiolch i drigolion ardal
Eco'r Wyddfa, ac i eraill o'r tu allan,
am y gefnogaeth a gafodd fy llyfr ar
hanes hen deuluoedd Gwaun Cwm
Brwynog, sef *Pobol Tu Ucha'r Giât*.
Er gwaethaf amheuo y Cyngor
Llyfrau yn Aberystwyth mai
'cyfyng ei apêl' fyddai'r testun, mae
Gwasg Pantycelyn newydd argraffu
trydydd argraffiad, sydd yn profi
unwaith eto fod llyfrau hanes lleol
yn boblogaidd!
Carwn hefyd ddal ar y cyfle i
ddweud wrth amryw fu'n holi fy
mod, os byw ac iach, yn gobeithio
trefnu cyfarfod ger adfeilion hen
Gapel Hebron yr haf nesaf, gyda'r
bwriad o ddadorchuddio llechfaen i
ddynodi bodolaeth yr addoldy ar yr
ucheldir. Bu trafodaethau gyda
chwmmi Rheilffordd yr Wyddfa
ynghlŷn â chael trên arbennig i
gludo rhai 'pererinion' i Hebron fis
Medi 2002. O bosib' fe fydd mwy o
fanylion ynghlŷn â'r cyfarfod/ oedfa
yn rhifynnau y flwyddyn newydd
o'r Eco.

Yn sgîl llwyddiant hynod
Cymanfa Ganu i ddathlu
canmlwyddiant Ysgol Brynrefail yn
y Capel Coch yn 2000, tybed a oes
modd trefnu Cymanfa arall yn yr
addoldy hwn yn 2003 a chynnwys
emynau a thonau y rhai a fu'n byw
neu'n gysylltiedig ac ardal *Eco'r
Wyddfa*? Mae digon ohonynt -
William Owen, Prysgol; R. R.
Morris, Alafon; Ieuan Gwyllt; T.
Rowland Hughes; Berw; R.
Williams Parry; David Jones, Y
Garreg Wen; R. H. Watkins; Gutyn
Arfon i enwi ond rhai ac, fel y
gwyddys, mae amryw o
arweinyddion a chyfeilyddion tra
medrus yn byw yn y dalgylch, ac
unawdwyr a chorau. Byddai'n gyfle
i ni fod yn ymwybodol o gyfraniad
trigolion talgylch yr Eco i
Ganiadach y Cyscgr yng Nghymru
ac rwy'n sicr y ceid cefnogaeth frwd
(a blynyddol gobeithio) i'r awgrym.

Yn gywir
Rol Williams
Waunfawr

Annwyl Olygydd,

Steddfod Bentrif Llanrug

Cyrhaeddais y Steddfod yn hwyr,
yn anffodus - tua 4 o'r gloch - ond
roedd Seremoni'r Cadeirio ar fin
dechrau! Yn syth wedyn fe aeth
pawb bron adref.

Hoffwn ofyn yn daer i Bwyllgor
y Steddfod ail-gysidro, a chael y
steddfod ar nos Wener fel ag yr
oedd o'r blaen er mwyn cael
cynulleidfia deilwng i'r
cystadleuwyr.

Ar y Sadwrn, mae llawer o bobl y
dyddiau yma yn mynd i rywle arall
gan mai dyma'r unig ddiwrnod
efallai sydd gan nifer o deuluoedd i
fod hefo'i gilydd ac ni fedrwyd
ddisgwyl i blant a phobl ifanc ddod
yno.

Yn gywir,
M. Humphreys

Coleg Glynllifon

Eleni mae Coleg Glynllifon yn
dathlu ei ben-blwydd yn 50 oed.
Mae'n siŵr fod amryw o fyfyrwyr o
ardal *Eco'r Wyddfa* wedi treulio
blwyddyn yng Nghynllifon. Os
hoffech ymuno â ni yn yr aduniad
eleni yng Ngwesty'r Stables,
Llanwnda ar nos Wener, 15
Tachwedd cysyllter â'r
Ysgrifennydd: Mrs Megan Jones ar
(01286) 830679.

Annwyl Olygydd

Roedd athrawes yn Ysgol y Waun
yn hoff iawn o adrodd y penillion
sy'n dechrau 'Cilia'r haul draw dros
frynau ael hael Arfon'. Dyna'r cwbl
rwy'n ei gofio. Tybed a oes rhywun
yn gwybod gweddill y gwaith yma.
Gyda diolch

J. Rhyd Humphreys
6 Heol Edward
Caernarfon

Annwyl Ddarllenwyr

Diddorol oedd darllen yn *Eco'r
Wyddfa* mis Hydref, sylwadau
Dafydd Guto ynghlŷn â'r wennol.
Mae gen innau ddiddordeb mawr
yn sylwi pryd y bydd hi yn gadael ac
yn dod yn ôl wedyn yn y gwanwyn.
Yr oedd o gwmpas Hafan Elan
Llanrug am y tro dwythia i mi ei
gweld ar 3 Hydref. Pan oeddym yn
blant byddem yn canu rhyw rigwm
am y wennol ac rwy'n anfon copi i
chwi.

Erbyn hyn mae adar eraill wedi dod
yn ei lle, sef y drudwy. Fe'i gwelir yn
dwad yn heidiau o gyfeiriad
Penisarwaun tua 8.30 i 9 y bore,
wedyn dod yn ôl tua 4.30 i 5.00 o'r
gloch, yn mynd i'r un cyfeiriad.
Byddant yn aros ar ddwy goeden
fawr yn Hafan Elan cyn cychwyn
wedyn ac maent yn swnllyd iawn.

Wennol, wennol, ple rwy'ti'n mynd?

Mynd am filltiroedd
Draw dros y moroedd,
Dros y moroedd mawr
'Rwyf i'n mynd.

Wennol, wennol pryd ddoi di'n ôl?

Pan aiff y gacaf,
Gwynt oer a'r eira,
Dof, mi ddof i Gymru
Yn ôl.

Yn gywir
Ceridwen Williams

Annwyl Olygydd,

Hen Adeilad yr Waenfawr

Cawsom lythyr gan gyn-gymdages
gynt o'r hen frawdoliaeth
amaethyddol ar lawr plwyf
Llan'iolan; aelod o deulu a oeddent
yn nodedig am eu gofal a'u
gwybodaeth am fuchesa llaeth, pan
oedd pob cynllun a gweithred yn
meddu pwrpas arbennig tuag at
oroesi drwy'r cyfnod llwm didostur
hwnnw.

Cadarnhaodd hi mai cwt lloiau
neu ddeunawiaid ac nid beudy oedd
hen adeilad yr Waenfawr, a
chryhaodd cin cyffelyb dyb. Mae'r
drws yn rhy gyfyng i ganiatau i
wartheg bolioig fynd i mewn: yn
enwedig rhai cyflo, heb sôn am y
cyfyngder mewnol na fuasai yn
caniatau i anifail rhyw naw troedfedd
o hyd ac ymestyniad cynr byth droi
yn gylch. Ac am ddim a ddeallais, nid
oedd yno unrhyw dystiolaeth o
bresebau na llaesod, na chwaith bing,
oedd yn atodiad anheggor bob amser
i feudy i gadw gwair wrth law yn
borthiant i'r gwartheg ar gyfer
tymhestloedd a lluwchfeydd y
gacafau gerwin rheiny.

Gallasai hefyd fod yn lloches i eifr
neu ddefaid. Mae yna le i ailystyried
pwrpas yr adeilad yna.

Wrth gwsr, hefo spectol dywell,
mae hi'n hawdd iawn arwain y
credadwy i gaddug.

John E. Williams
Allt Riwth
Pontrhythallt

**Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?**

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad

yw cost yswiriant gyda **CDH**

Andre (Bethel/Llanberis)

Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)

John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

**EMYR
JONES**

**PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
CAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616

SPAR

**Y STORFA
LLANRUG**

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfôn archeb i'ch cartref
yn ardal Llanrug

RHODDION

£25: Rhodd gan deulu y diweddar Mrs K.M. Jones, Gorwel, Waunfawr, er cof amdani.

£20: Owen Jones, 11 Rhos Llwyn, Llangefni er cof am ei wraig.

£10: Ernest Jones, Hafan, Porth-y-gogledd, Deiniolen; Mr a Mrs Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd, Deiniolen.

£5: Alun Wyn a Laura Evans, 55 Pentre Helen, Deiniolen; Mrs Clara Roberts, Anfield; Carrie Hughes, 5 Ffordd Padarn, Llanberis; Rhodd gan Mr a Mrs Arthur Ellis, Min y Nant, Waunfawr; Rhodd gan deulu Ty'n Llidiart, Waunfawr; Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-glo; Teulu y ddiweddar Mrs Lizzie May Lewis, Llys Anedd, Deiniolen; Betty Roberts, 2 Garth Drive, Gaerwen;

£3: Carys a Gareth Morris; Rol Williams, 5 Pant y Waun, Waunfawr.

Cefnogwch ein Hysbysebwyrr



Ar Ben Arall y Lein

Rhaid rhoi ymddiheuriad am fethu'r rhifyn diwethaf, ond mi gefais tipyn o wyliau, fel un o griw o naw a fuodd drosodd yn pysgota ar yr Afon Campbell, Ynys Vancouver, Canada. A sôn am bysgod, dyma'r unig amser yn fy mywyd imi ddal dwsinau o cogiaid mewn chwe diwrnod o 'sgota. Pysgod yn bob man. Ond nid fel yna yr oedd yn y fan honno chwaith.

Yn 1977 'roedd Mwyngloddio a Choedwigaeth bron wedi lladd pob 'sgodyn yn yr afon. Sylweddolodd y llywodraeth fod bywoliaeth yr holl ardal mewn perygl. Felly fe glustnodwyd milliynau o ddoleri i gildroi'r patrwm yma o ddirywiad. Adeiladwyd deorfa newydd a, thrwy waith y ddeorfa ble mae'n bosib magu oddeutu 25 milliwn o eogiaid bychan yn flynyddol, mae'r afon wedi gwella cyn gymaint fel bod pysgotwyr o bob rhan o'r byd yn ymweld â'r pentref Fai i ddiwedd Medi yn flynyddol. Gwestai i gyd yn llawn, a phawb yn dal. Wrth gwrs, yno yr ymarferiad yw ddychwelyd pob pysgodyn a fachwyd yn ôl i'r afon. Yr unig rai a welais yn lladd 'sgodyn oedd yr bobl gynhenid. 'Roedd

hyd yn oed y cŵn yno yn cael llond bol o eog.

Roedd yno sefydliad diddorol iawn sef 'Clwb Tyee British Columbia'. Tyee yw eog Chinook sydd dros 30 pwys. Mae'n rhaid eu dal oddi fewn i reolau llym y clwb, sef oddi ar gwch rhwyfo. Sgota yn aber yr afon gyda genwair fechan, ril bluen, pwysau lein dim mwy na tua 20lbs ac un bachyn sengl ar yr abwyd metal llachar.

Ymwelais â'r clwb, ond yn anffodus roedd y cychod i gyd wedi eu bwcio yn ystod ein wythnos ni. A does dim rhyfedd gan fod yn bosib dal Tyee hyd at 70 pwys. Y tymor yma y trymaf oedd un o 49 pwys, a'r adeg roeddwn i yno, y trymaf oedd 32 pwys.

Yr arferiad yw arddangos y pwysau ar fwrdd tu allan i'r clwb.

Does dim dwywaith na fydd yn rhaid mynd yno eto i gael trio am yr anghenfil o sgodyn 'ma.

* * *

Be sydd wedi bod yn digwydd adref tybed, wel araf iawn yw'r sgota, dim dŵr, dim glaw gwerth sôn amdano ers dechrau Medi. Yr afonydd i gyd yn

dangos ei esgyrn, ond nid yw popeth ar ben gan fod Llyn Dywarchen yn 'sgota'n eithriadol. Mae canran pwysa'r brithyll sy'n dod i'r rhwyd yno o gwmpas 4 pwys. Drwy'r adroddiadau rwy'n dderbyn gan yr aelodau nid oes unlle cyn gystal yn y sir y flyyddyn yma. Mae'r dyfodol hefyd yn ddisglair gyda 1,500 o frithyll yr enfys a 2,000 o Triploids yn tyfu'n braf yn y ddeorfa, yn barod am 2003. Bechod na fuasai'n bosib adeiladu un cyn gystal a'r un yn Canada. Cawn weld be ddaw.

Ar yr Seiont yr unig eog a glywais sydd wedi eu dal oedd gan y canlynol: Bryan Thomas, Bethel, un am 6 pwys; D. Davies, Caernarfon dau am tua 7 pwys yr un; Carl Hasson, Caernarfon. (Brynrefail gynt) un am 10 pwys.

Newydd ardderchog i gloi: mae'r gymdeithas wedi bod yn llwyddiannus yn ei chais am Gymorth Amcan 1 i addasu Melin y Cim, Pontllyfni yn llety hunan gynhaliol i bysgotwyr a'i teuluoedd. Diolch i pawb a fu mor gefnogol i'r gwaith, yn enwedig Swyddogion Cynllunio a Datblygu Economaidd Cyngor Gwynedd drwy Gynllun Cwlwm Gwledig a arianwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Huw Price Hughes



'Clwb Tyee British Columbia'



antur WAUNFAWR

Cynllun Dodrefn

Mae'r Cynllun yn brin o gyfraniadau nwyddau trydanol, yn arbennig poptai, oergelloedd, peiriannau golchi a rhewgelloedd fyddai'n addas i'w cleientau ar incwm isel

Gwasanaeth casglu rhad ac am ddim

01286 674 155
www.anturwaunfawr.org

ANTUR
WAUNFAWR

NATIONAL LOTTERY
CHARITIES BOARD

GWASANAETH LLEOL AR GYFER

PARTÏON • PRIODASAU • PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU ...

RHOSTIO MOCHYN



AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partïon rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON, LLANKRUG

Y DYN CIG ar 675190 / 673188

O SIAMBAR SELWYN

Rhywdro yn ystod 1991 fe dderbyniodd Cyngor Cymuned Llanddeiniolen gais gan yr hen Gyngor Arfon am i ni ystyried enw addas ar y stad newydd o dai a adwaenir heddiw fel Bro Eglwys.

Roedd y stad newydd yma yn cael ei chodi ar dir a adwaenid fel *tir Gongl Ddu* gan fod yna adfeilion o'r hen dyddyn yn bod yno ar y pryd.

Mae'r stad hon hefyd union gyferbyn â Gorffwysfa, sef cartref a man geni y diweddar athro, bardd a'r llenor W. J. Gruffydd.

Gan ei bod hi'n ganmlwyddiant geni W. J. G. pan ddaeth y cais, fe benderfynodd y Cyngor Cymuned yn unfrydol i awgrymu 'Bro Gruffydd' fel enw ar y stad, gan gofio i drigolion pentrefi cyfagos anrhyddeddu cu henwogion drwy enwi stadau a strydoedd ar eu holau, fel Bro Silyn yn Nhal-y-sarn, Ffordd Cynan ym Mhorthachthwy a Bro Syr Ifor yn Nhregarth.

Penderfyniad Cyngor Arfon fodd bynnag oedd galw'r stad yn 'Congol Ddu'. 'Congol' sylwch, gair sy'n odli yn berffaith â 'mongol'. Mae'n wir i hen fwthyn uncorn a elwid yn Congl Ddu neu Gongl Ddu (yn ôl rhai) fod ar y llecyn tir hwn mor bell yn ôl â 1752 o leiaf, gan i mi ganfod ar hen gofrestr fod yna un o'r enw Robert Griffith yn byw yno ar y pryd.

Mae 'na amryw ohonom ni drigolion Bethel yn cofio yr hen fwthyn. Roedd o'n enghraifft berffaith o'r hyn a oedd hen dyddynnod cynnar. Ffenestri bach, drws isel ac un corn, ond eto enw cwbl anaddas oedd Congl Ddu arno gan fod y bwthyn hwn (pan oedd) yn sefyll ar wastadedd heb na chilfach yn agos ato.

Ond, dowch yn ôl at benderfyniad Cyngor Arfon a'i 'Gongol Ddu'. Bu dirprwyath o'r Cyngor Cymuned mewn cyfarfod o Gyngor Arfon yn datgan ein gwrthwynebiad, gan ddwyn i'w sylw mai cwbl

anfoddhaol oedd rhoi enw a oedd yn ddisynnwyr ac yn wallus o ran gramadeg o flaen cartref un o lenorion enwocaf Cymru. Eglurwyd iddynt hefyd am y sbort a gâi Sacson o gyfieithu y fath enw. Ia 'Black Corner' fydda fo reit siŵr.

Fodd bynnag fe lwyddom i'w perswadio i gladdu'r enw 'Gongol Ddu' ond aflwyddiannus fu ein cais iddynt alw'r stad yn Bro Gruffydd, er mawr siom i amryw o drigolion Bethel.

Rwy'n bwriadu sôn mwy am W. J. Gruffydd yn ystod y misoedd sydd i ddod, ond am y tro fe soniwn ni dipyn mwy am yr hen dyddyn Gongl Ddu. Fel y dywedais roedd yn enghraifft berffaith o hen dyddyn. Un bychan, isel, un ffenestr ac un drws. Y ffenestr yn fach er mwyn cadw'r oerni allan. Hefyd yn yr hyen ddyddiau rhaid cofio y byddai'r tai yn cael eu trethu yn ôl eu huchter o'r sylfaen i'r bondo ac os byddai mwy nag un ffenestr, rhaid fyddai talu treth ychwanegol.

Fe geir amryw o lefydd yng Nghymru a'r gair 'Congl' ynddo. Ceir Congl Meinciau ym Motwnnog; Congwal yn Ffestiniog a Conglgam yn Llŷn. Gellid tybio oddi wrth yr enwau hyn mai rhyw fath o gongl mewn rhyw gilfach ddu, dywyll a ddisgwyliid ei gael, ond ni cheir cilfach yn agos i'r fan lle safai Gongl Ddu. Ers talwm, mawn yn unig a arferid ei losgi i gynhesu ac ar ganol yr ystafell roedd y tân, gyda'r canlyniad y byddai nenfwd y tyddynnod yn mynd yn ddu. Dyna'r csboniad ar Gongl Ddu efallai.

Ers talwm Gongl Ddu oedd yr unig dyddyn a safai yn y lle a adwaenir heddiw fel Saron. Tua'r flwyddyn 1800 trigai gŵr a gwraig o'r enw Robert ac Ellen Jones yma, a thua'r flwyddyn 1834 cymerasant un o'r enw Moses Deiniol Ddu atynt i'w fagu.

Plentyn 'llwyn a pherth' oedd Moses, a'i fam yn ferch o Benisarwaun a adwaenid fel

merch William Griffith Bagla. Y si ar y pryd oedd mai mab Lôn Las oedd ei dad. Fodd bynnag, pan anwyd Moses dywedir i'r fam ddod ag o i Lôn Las ac i'r teulu wrthod ei dderbyn, ac i'r fam ei adael ar y ffordd a mynd adre. Cafodd gwraig Tyddyn Mawr hyd iddo a'r diwedd fu i Robert ac Ellen Jones, Gongl Ddu ei fagu. Dyma hen rigwm doniol a wnaeth rhyw fardd gwlad ar y pryd,

Daniel doniol ble doist ti?
'O dy Wil Bagla am wn i,
Mam gadawodd fi ar y lôn
A dyna lle bûm yn fawr fy mhoen.
Beti, Tyddyn Mawr gododd fi oddi
ar y llawr,

Aeth honno a fi i Lôn Las
Ac fe aeth y wraig honno yn bur gas,
Laura Parry yn fawr ei ffrwst,
Catrin Morris yn cloi y drws.

Cafodd teulu Gongl Ddu help plwyfol i'w fagu a gwelir enw Moses Deiniol Ddu yn aml yn Llyfr Cyfrifon Plwyf Llanddeiniolen o 1834 ymlaen.

e.e. Mai 27 1834: Talu, Moses Deiniol Ddu 2/- yr wythnos am 52 wythnos: £5 4s 0d.

Cafodd y taliadau eu gwneud yn flynyddol o'r flwyddyn 1834 ymlaen hyd yr adeg y daeth Moses yn ddigon hen i weithio. Bu'n gweithio yn Chwael Dinorwig ac fe briododd a mynd i fyw i Sir Fôn.

Roedd tad Ellen Jones yn byw yn Gongl Ddu yr un pryd, ac roedd Ellen yn cael cymorth gan y plwy am ofalu am ei thad. Gwelwn yn y Cyfrifon Plwyfol i Ellen Jones gael help i dalu'r trethi ar 19 Mawrth 1835.

Sistio'r trethi i Ellen Jones Gongl Ddu am dendio ar ei thad 10 swllt. (Ystyr y gair 'sistio' ydi 'assistance').

Yn ddiweddarach bu un o'r enw Hugh Hughes yn byw yn Gongl Ddu. Roedd hwn yn daid i Daniel, Huw a John Ifor Jones a fu'n byw yn Llys Llywelyn. Bu'r tri ohonyn nhw yn flaenoriaid yn Y Cysegr. Fe briododd Hugh Hughes â merch Erw Fforch. Yr oedd teuluoedd Erw Fforch a Gongl Ddu yn weithgar iawn gyda dechreuad achos y Wesleaid ym Methel. Yn Erw Fforch y dechreuwyd pregethu gyntaf yn

yr ardal gan y Wesleaid, a Humphrey Jones, Erw Fforch a brynodd y tir lle adeiladwyd y Capel Wesla arno (Capel Bach) tua'r flwyddyn 1853.

Ond roedd Gongl Ddu union gyferbyn â chartre W. J. Gruffydd, ac mae'n bur debyg ei fod yntau yn gyfarwydd â'r hanesyn uchod. Fe dd'wedodd Gruffydd fwy nag unwaith mai trigo yng Nghaerdydd yr oedd o, ond BYW ym Methel. (Ystyr y gair trigo yn iaith y de ydi marw).

Do, fel gollodd Cyngor Arfon gyfle gwyh i anrhydeddu un o brif lenorion ein cenedl ar achlysur dathlu canmlwyddiant ei eni.



CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo

MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol



GARETH GRIFFITH A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: 67 68 69 Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phrofiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Tenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

Un funud fach Dwyieithrwydd

Feddyliais i rioed y byddwn yn dweud hyn, ond rwyf bellach o'r farn fod angen rhagor o oedfaon dwyieithog yn ein capeli a'n heglwys. Mae'n beryg na ddaw llewyrch i Achos Iesu Grist yng Nghymru heb i'r ddwy iaith gael eu lle priodol ym mhob oedfa. Ond rhag i neb dybio fy mod ar fin troi oedfaon y capeli acw yn gymysgfa o Gymraeg a Saesneg, gwell i mi egluro mai sôn yr wyf am y Gymraeg a iaith y Beibl.

Mae iaith y Beibl wedi mynd yn ddiarth iawn erbyn hyn, hyd yn oed i bobl capel ac eglwys. Ac mae angen ail ddarganfod yr iaith honno, a'i hadfer. Mae geiriau'r Beibl wedi mynd yn ddiarth i'r rhelyw o bobl. Ac un o'r pethau pwysicaf y gall yr Eglwys ei wneud heddiw yw cyflwyno ac egluro geiriau mawr y Beibl - geiriau mawr y Ffydd Gristnogol - i bobl.

Ychydig sy'n rhugl yn iaith y Beibl erbyn hyn. A rhaid i ni fynd i'r afael â'r broblem hon er llys Efcngyl Iesu Grist.

Mae llawer o eiriau'r Beibl wedi mynd yn angof i ni. Pryd glywsoch chi sôn ddiwethaf am bethau fel ailenedigaeth a thröedigaeth; cyfiawnhad a sancteiddhad; uffern a cholledigaeth; neu am ailddyfodiad Crist ac atgyfodiad y meirw? Dyma eiriau pwysig sy'n ganolog i neges yr Efcngyl, a rhaid ailddarganfod geiriau o'r fath cyn y byddwn yn siarad iaith y Beibl yn rhwydd.

Ac mae'n beryg fod llawer o'r geiriau Beiblaidd a ddefnyddiwn yn gyson wedi colli eu hystyr. Mae gwir angen eu hailddiffinio er mwyn i ni allu siarad iaith y Beibl yn gywir. Mae geiriau fel ffydd, credu, maddeuant, edifeirwch, aberth, cymod, cariad, a bywyd tragwyddol yn ddigon cyfarwydd. Fe'u clywir bob Sul yn ein hoedfaon, ond faint ohonom bellach sy'n gwybod eu hystyr?

Mae'n bosibl adfer a chryfhau a chynyddu'r defnydd o unrhyw iaith, a diolch am hynny. Ac mae'n bosibl adfer iaith y Beibl i'w phriodol le ym mywyd Eglwys yr Arglwydd Iesu Grist. Pan ddigwydd hynny, bydd gobaith i bobl ddeall ac ymateb i alwad rasol Duw iddynt i droi at Iesu a'i gofleidia'n Gyfaill a Gwaredwr. A dyna i chi ragor o ciriau i ni i'w dcall!

JOHN PRITCHARD

Cefnogwch
ein
Hysbysebwyd

Briwsion Byd Natur Dafydd Guto

Peli Caled sy'n Llawn Hanesion



Peli neu sbarion? Fel hyn y cofnodwyd gan y diweddar Ted Breeze Jones (yn) *Natur yn yr Ardd* 1969: y mae adar ysglyfaethus yn llyncu'r cig, y blew, y plu ac esgyrn yr adar a'r anifeiliaid fyddan nhw'n hela, ond dim ond y cig fydd yn mynd i lawr i'r stumog. Fe daslan nhw'r sbarion i fyny, ac o gwmpas y nyth fe fydd dwsinau o beli caled yn llawn ffwr ac esgyrn llygod.

Nid af yma ar drywydd pryd na ble'n gymwys y codir Canolfan i gynnwys gwaith yr adarydd nobl hwn - y mae digon o eisiau un, sef Canolfan y gall oedolion ac ieuencid fel ei gilydd ymddiddori ymhellach ym myd natur. Y cyfan a dd'wedaf yw fod, ymhlith y llu ffotograffau rhyfeddol a dynnodd Ted â'i gamera, lun sy'n cynnwys pelenni tylluanod

ac ebe'r Naturiaethwr o Feirion: *Wrth chwalu'r peli hyn a sylwi'n ofalus fe garwn ni syniad pur dda am fwyd y Dylluan... Archwiliodd un adarydd 700 o'r pelenni, ac fe gafodd weddillion 2,513 o lygod ynddyn nhw.*

Rai misoedd yn ôl yn y Wasg crewyd drama fawr, a'r tro hwn darganfyddiad yn Peterborough, Lloegr oedd yn ennyn sylw'r newyddiaduron. Onid oedd dyn wedi taro ar ffosil *ichthyosawrws*, sef dolffin enfawr a oedd yn byw yn y môr ymhell cyn dyfodiad bodau dynol ar y ddaear? Un tebyg ran ffurf ei gorff i'r llamhidydd ydoedd yr *ichthyosawrws*. Enw arall am y llamhidydd ym Mhen Llŷn ydyw llambedyddiol. Credaf fod moelrhonyn a phorpois yn enwau eraill arno. Bu'r *ichthyosawrws* fyw ar y

ddae'r 208,000,000-144,000,000 o flynyddoedd yn ôl. Daw'r gair *ychthyo* o'r iaith Roeg, a'i ystyr ydyw pysgodyn, sef sgodyn wedi'i dalfyrru.

Ond nid pysgodyn mo'r dolffin na'r llamhidydd. Aelod o deulu'r *Odontoceti* ydynt ac yn perthyn i rai o deulu'r morfilod. Mamaliaid ydynt. Fel chwi a minnau, y maent yn gynnes ran eu gwaed.

Mae'r gair *sawrws* yn deillio o'r un iaith hefyd, sef genau goed, neu'r fudr-chwilen fel y'i gelwir mewn rhai mannau yng Nghymru. Rhyw 3 metr (sef cwta 10 troedfedd i gyd) ydoedd ran hyd ac yn medru mynd fel Jehu, neu'n hytrach fel rhyw Wyndaf Ifans, Dinas Mawddwy mewn rali geir, a hynny drwy'r dyfroedd! Ymddengys nad oedd iddo wddf ond yn hytrach asgell. Byddai'r asgell yn ei gynorthwyo i lywio'i gorff hirfain drwy'r dŵr. Roedd gan y mamal enfawr hwn nifer o ddannedd cythreulig o finio. A'i fwyd? Yn achos *ichthyosawrws* Peterborough, canfyddwyd nifer o gregyn-bysgod ffosiliedig â staeniadau hylif arnynt, hynny yw, gollyngwyd y trwyth o stumog y creadur! Ia'n wir mi roedd yr hen homar o anifail yn yr oes Jiwrasig welwch chwi'n taflu i fyny belenni, yn union fel y gwna rhai adar yn ein hoes ni!

Peidiwch a gori ar stori – anfonwch hi i'r ECO

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)
(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac
ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a
PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CHIROPODIST Gwasanaeth yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754

GORS BACH PANEL BEATING SERVICE

yn LLANRUG
ar gyfer eich
holl anghenion

- Trin cyrff ceir
- Gwaith Mecanyddol
- Gwasanaeth/Service
- Valleting

(01286) 870814

CHWILOTA

Cân 'Y Môr' a Ffatri Bedwargoed



Ymddiheuriadau cyn cychwyn ar golofn y mis hwn, yn enwedig i'r rhai ohonoch sy'n parhau i ddisgwyl yn amyneddgar am hanes teuluoedd Hobley a Hume. Gredwch chi fod gwybodaeth am y teulu yn parhau i gael ei anfon i mi? Addewais y mis diwethaf gau pen y mwdwl, ond (i'r rhai ohonoch sy'n deall astrus grombil cyfrifiadur!) fe dorrodd y peiriant sgwennu. Rwy'n credu bellach y bydd yn rhaid gohirio hanes y ddwy 'H' hyd rifyn y Nadolig, gan obeithio y gwnaiff anrheg derbyniol am ddisgwyl cyhyd amdano!

Yn y cyfamser, daeth nodiadau diddorol iawn i law gan Huw Roberts, Pwllheli (Llanberis gynt), sy'n un o nifer helaeth o'r darllenwyr sy'n olrhain ei achau, ac yn darganfod llawer o wybodaeth ddiddorol am ei hynafiaid - ac nid sgerbydau sychion mohonynt 'chwaith!

Roedd Rowland Evan Roberts yn gefnder i'w nain, yn gweithio yn Chwael Dinorwig ac yn dipyn o fardd gwlad. Hen lanc oedd Rowland, yn byw gydag un o'i chwiorydd, a briododd â Hugh Hughes o Fodwrog ym Môn. Gwneuthurwr gwlanen oedd Hugh Hughes, a rhywdro yn ystod chwarter olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, symudodd ef a'r teulu, a Rowland, i Bedwargoed House, Llanberis. Bu Hugh Hughes farw yn 1900, ond parhaodd ei fab, Robert Jeffrey Hughes a'i briod Jemima gyda'r busnes, a'i ferch yntau, Martha, a'i gŵr, Thomas Morris Jones, wedi hynny.

Yn ci nodiadau, mac Huw Roberts yn tynnu sylw at y ffaith fod Mrs Eirwen Wrigley (Hughes, gynt, eto o Lanberis), yn cofio'r ffatri pan oedd hi'n blentyn yn Stryd Siarlot. A thrwy gyd-ddigwyddiad, pwy ddaeth ar y ffôn o fewn ychydig ddyddiau i dderbyn lliith Huw Roberts, ond Stanley Wrigley o Borthaethwy, sef mab Eirwen - ar berwyl hollol wahanol, gyda llaw, ond yn awgrymu yn ystod ein sgwrs, fod Bedwargoed House wedi ei leoli ar y Stryd Fawr yn Llanberis, ac yn cefnu ar Stryd Siarlot. Roedd yn amcangyfrif fod y tŷ, a'r ffatri felly, rywle rhwng yr Eglwys Babyddol bresennol a Swyddfa'r Bost. Oes unrhyw un o'r darllenwyr yn medru lleoli'r tŷ a'r ffatri, neu gyda mwy o wybodaeth amdani?

Mac Bedwargoed, wrth gwrs, yn enw ar dŷ ar lan Llyn Padarn - ger Afon Fachwen ym mhlwyf Llanddiniolen - ac yr oedd melin yno ar un cyfnod. Roedd Llyn Penrallt, Dinorwig, (cyn i'r argac dorri)

yn bwydo'r melinau hyn. Tybed ai yno y cychwynnodd Hugh Hughes fel gwneuthurwr gwlanen cyn symud ar draws y llyn i Lanberis ac enwi ei gartref newydd yn 'Bedwargoed House'?

Ond i ddychwelyd at stori Rowland Evan Roberts. Fel y dywedwyd eisoes, roedd yn dipyn o fardd gwlad, ac yn awdur cân a fu'n boblogaidd iawn yn ei chyfnod, sef 'Y Môr'. Cred Huw Roberts ei bod yn cael ei chanu ar alaw debyg i 'She'll be coming round the mountain...' O bosibl y gall rhai ohonoch chwi'r darllenwyr gadarnhau hynny.

Mae'n ymddangos fod y gân, oherwydd ei bod mor boblogaidd, wedi ei harall-eirio gan amryw dros dreigl y blynyddoedd, ac enw'r awdur wedi mynd ar ddifancoll, ond mewn llythyr at O. M. Edwards yn 'Cymru' (Cyfrol 8 tudalen 31) mae'r awdur ei hun yn ceisio iawn am y cam. Meddai Rowland: 'Gwelais hi (sef 'Y Môr') wedi ei chyhoeddi yn Gwalia yn anghywir, ac mewn wythnosolyn arall fe



Rowland Evan Roberts
gyda'i dad.

ymddangosodd ag enw rhywun arall wrthi, ond yn anghywir ac anghyflawn.' Nid oedd cam-eirio'r gân wedi poeni fawr ar yr awdur, mae'n ymddangos, ond 'pan welwyd yr arch-leidr yn ei thrawsfeddiannu gyda'r fath ddigywilyddeidra' penderfynodd sgwennu at O. M. Edwards i roi'r fersiwn cywir, ac i gadarnhau mai Rowland Evan Roberts, Bedwargoed House, Llanberis (Dorlan Goch, Clwt y Bont, gynt) oedd yr awdur!

Mae wedyn yn mynd yn ei flaen i ddweud hanes ei chyfansoddi.

Fe'i hanfonwyd i gystadleuaeth dan nawdd Undeb Llenyddol Deiniolen. Ni chafodd wob, ond roedd y beirniad, Mr John Thomas, Llanwrtyd ('y cyntaf un a welodd y gân ar ôl iddi fyned o fy llaw fy hunan!') wedi ei mwynhau. Meddai Rowland: 'Nid wyf yn cofio i mi weled y gŵr difrifol hwnnw yn gallu cynhyrchu cymaint o chwerthin erioed.' Arweinydd y cyfarfod y noson honno oedd John James Hughes (Alfardd), a phwysodd ar Rowland i gyhoeddi'r gân yn Yr Herald Cymraeg ac fe ymddangosodd yr wythnos ddilynol.

Mae wyth o benillion i'r gân, ond rhywsut, ni chredaf y byddai darllenwyr heddiw yn cynhyrchu fawr o chwerthin o'i darllen! Dyma'r pennill cyntaf a dau arall (y rhai digrifaf yn fy marn i):

Anferthol faith ei wyneb
Yw y môr, yw y môr,
Rhyw ail i dragwyddoldeb
Yw y môr;
Mae yn ei faith ddyfnderoedd
Gyflawnder o oludoeedd
Ac aur ers amryw oesoedd
Yn y môr, yn y môr;
Ariandy Duw y lluoedd
Yw y môr.

Mae pysgod mawr aruthrol
Yn y môr, yn y môr
Yn gwledda ar gnawd dynol
Yn y môr;
Mae tuedd yn eu rheibiad
I ddrysyr atgyfodiad
Trwy falu cyrff mor anfad
Yn y môr
A'u cario i bob cyfeiriad
Yn y môr.

Mae llawer o farilau
Yn y môr, yn y môr
O gwrrw a gwirodau
Yn y môr;
Chaiff Temlwyr Da ddim profi
O'r pysgod dirifedi
Sy'n nosio'r dyfroedd heli
Yn y môr
Maent wedi yfed brandi
Yn y môr.

Y Temlwyr Da, gyda llaw, oedd y llwrymwrthodwyr, ac felly doedd ffw iddynt fwyta pysgod, yn ôl Rowland oherwydd fod

pob pysgodyn wedi yfed alcohol!

Ymddangosodd erthygl deyrnged i *Awdur Cân y Môr* yng nghyfrol 47 o *Cymru*, sef ail hanner 1914.

Llawer o ddiolch i Huw Roberts am ddwyn fy sylw at y wybodaeth uchod, ac am anfon copiau o'r gân a nodiadau am y teulu a'r ffatri. Ond rwy'n siŵr fod gan eraill rywbeth i'w ychwanegu at hanes Ffatri Bedwargoed, felly cofiwch anfon gair, neu godi'r ffôn.

Tŷ Beili, Nantperis

Soniais yn gynharach am alwad ffôn Stanley Wrigley. Galw yr oedd gyda gwybodaeth am Tŷ Beili, Nantperis. Chwi gofiwch i mi holi a gafodd y tŷ ei enwi ar ôl Peter Bailey Williams, Rheithor plwyfi Llanberis a Llanrug ddau can mlynedd yn ôl. 'Na,' yw'r ateb. Mae Stanley Wrigley wedi bod yn chwilio hanes ei deulu (sef y Clossiaid), ac wedi copio cofrestrau plwyf Llanberis. Mae hefyd, gyda llaw, yn hannu'n rhannol o'r un cyff â Huw Roberts. Mae cyfeiriad at Tŷ Beili mor bell yn ôl â 1763 pan fedyddiwyd mab i William Owen a Dorothy Morris ei wraig, yn yr eglwys. Ac y mae'r dyddiad hwn ddeg mlynedd ar hugain cyn i Peter Bailey Williams ddod i Arfon yn rheithor.

Ond mae'r cwestiwn yn aros: pwy oedd y 'beili' a roes ei enw i'r tŷ?

Mae Eifion Roberts, Llanberis (a anfonodd y llun gwreiddiol i'r 'Eco' ddeufis yn ôl, ac a gychwynnodd yr holl holi) wedi darganfod mwy o wybodaeth am y teulu sydd yn y llun. Roedd i Robert Jones, y clochyd, a'i chwaer Elin Ann, ddwy chwaer arall: Emily a Catrin. Dwy o ferched Catrin, sef Bessie a Katie, sydd yn y llun. Merch arall i Catrin oedd Emily (a enwyd ar ôl ei modryb), sef nain Susan a Dafydd Bullock.

Derbyniwyd pytau eraill o wybodaeth ac ymholiadau am hanesion eraill yn ymwneud â bro'r 'Eco', ond eisoes aeth y dudalen yn faith (er gwaetha'r ffaith fod y peiriant sgwennu ond megis wedi ei drwsio), a rhaid gohirio'r gweddill hyd y rhifyn nesaf. Ond cofiwch, mae gwaith crynhoi ar bigion yn ymwneud â Charthen Pwllheli eto i'w gwau gyda'i gilydd, ac rwy'n siŵr y daw galwadau eto yn ystod y mis. Felly, cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug. (Ffôn: 01286 673515).

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwy**

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: (01286) 871259



PRIODAS. Ar 24 Awst, yn Eglwys Dewi Sant, Blaenau Ffestiniog, priodwyd Kathy Hughes a Dyfan Sion, Ceris, Deiniolen. Dathlwyd y wledd briodas yng Ngwesty'r Celt, Caernarfon. Mae'r ddau wedi ymgartrefu ym Mae Penrhyn.

DIOLCH. Dymuna Dyfan a Kathy ddiolch o galon i bawb am yr anrhegion, y cardiau a'r dymuniadau da ar achlysur eu priodas.

DIOLCH. Dymuna Ernest Jones, Hafan, Porth y Gogledd ddiolch i'w deulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tra bu yn Ysbyty Gwynedd. Diolch am y llu cardiau a galwadau ffôn ddiweddd. Diolch yn fawr iawn i bawb.

YSGOL FEITHRIN. Croesawyd tua 13 o blant newydd i'r Ysgol Feithrin ddechrau mis Medi gyda mwy i ymuno yn ystod y tymor a gobeithio eu bod i gyd wedi ymgartrefu erbyn hyn.

Cynhelir Noson Tân Gwylt yn iard yr Ysgol Feithrin nos Fawrth, 5 Tachwedd. Drysau'n agor am 6 o'r gloch ac i gychwyn am 6.30. Mynediad yn £1.50 i oedolion, yn cynnwys raffl a £1 i blant, gyda myniediad am ddim i blant yr Ysgol Feithrin. Bydd yno amryw o stondinau fel cŵn poeth, afalau taffi, diodydd a melysion.

DYMUNA Sioned Evans ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei hamser yn yr ysbyty ac am yr holl gardiau a dderbyniodd.

DIOLCH. Dymuna Mona, Jean a'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt fel teulu ar achlysur colli mam a nain anwyl, sef Mrs Lizzie May Lewis, Llys Annedd, Fferdd Deiniol.

DYMUNA teulu Laura Evans ddiolch am y cardiau a'r llu galwadau ffôn a gafwyd ar ôl ei damwain yn y cartref.

SEINDORF. Clwb 200 mis Awst: £20 (50) Laura Williams, Tan y Fron, Dinorwig; £15 (62) Jennie Lyn Morris, Cartref; £10 (24) Dafydd Wyn Evans.

Clwb 200 mis Medi:

£20 (37) R.O. Thomas, 67 Pentre Helen; £15 (52) Myrddin Pritchard; £10 (36) Huw Williams, Gaerwen.

Clwb 200 mis Hydref:

£20 (63) Hilda Saynor, Bangor; £15 (160) Dewi Williams, Victoria Terrace; £10 (213) Eirwen Williams, Pen y Golwg.

Nos Wener, 27 Medi cynhaliwyd Cyngerdd Blynnyddol y Seindorf yn Ysgol Brynrefail, Llanrug. Yn cymryd rhan gyda'r Seindorf oedd Lyndsey Vaughan Parry, Grŵp Offerynnol Ysgol Bethel, Persain a'r Seindorf Ieuencid, a'r cyfan dan ofal medrus Mr Eifion Harding.

Dymuna'r Seindorf ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

YSGOL GWAUN GYNFI

Dyma dymor a blwyddyn newydd wedi dechrau unwaith eto gyda 14 o blant yn dechrau yn y dosbarth Meithrin. Mae'r plant i gyd wedi cael cyfle i setlo erbyn hyn ac mae pawb yn gweithio'n galed.

Tŷ Gobaith: Drwy noddi Mr Rhys ab Elwyn, ein Dirprwy Bennaeth, casglwyd £603.35 tuag at yr elusen yma. Diolch yn fawr i bawb am eu cefnogaeth.

Ffair Lyfrau: Cafwyd ffair lyfrau lwyddiannus iawn yn yr ysgol yn ystod yr wythnos 7-11 Hydref, gyda gwerth £290 o lyfrau wedi eu comisiynu i'r ysgol. Diolch yn fawr i bawb am bob cefnogaeth.

Amgueddfa Blentyndod: Bu plant Blynnyddoedd 1 a 2 yn ymweld â'r Amgueddfa Blentyndod ym Miwmares ddydd Mercher, 9 Hydref.

Cystadleuaeth Rygbi: Bu 16 o blant yn cymryd rhan mewn twrnament ysgolion y dalgylch ddydd lau, 17 Hydref. Canlyniadau i ddilyn.

Noson Bingo: Cynhelir noson Bingo nos Wener, 8 Tachwedd am 6 o'r gloch yn neuadd yr ysgol. Bydd yr elw yn mynd tuag at yr Ysgol. Croeso cynnes i bawb.

Amgueddfa Lechi: Bu plant Blwyddyn 6 yn ymweld â'r Amgueddfa ddydd Gwener, 18 Hydref. Buont yn cymryd rhan mewn gweithgareddau barddoni gyda Myrddin ap Dafydd.

Clwb Cant: Enillwyr mis Medi oedd (56) Mrs Monica Owen, 17 Pentre Helen; (92) Bethan Parry, O'r Diwedd, Clwt-y-bont; (48) Mrs Nia Williams, Blaen Cae, Deiniolen.

Enillwyr mis Hydref oedd (33) Mair Rees Jones, Tan y Caerau, Clwt-y-bont; (44) Mrs Gwenlli Jones, Pontrug; (48) Jean Jones, Ysgol Gwaun Gynfi.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Croesawyd y Canon Geraint Edwards a'i briod, Bati, i Swper y Cynhaeaf y mis diwethaf. Rhoddodd sgwrs hwyliog a difyr ar 'Hiwmor yn y Pulpud'. Roedd merched yr Eglwys wedi bod yn brysur yn paratoi swper blasus. Diolch am noson a fwynhawyd gan bawb o'r aelodau.

Bydd y cyfarfod nesaf am 7 o'r

gloch nos Lun, 4 Tachwedd. Y siaradwr gwadd fydd Hugh Price Hughes o Fethel. Croeso cynnes i bawb.

Er ei bod yn noson stormus, cafwyd Gwasanaeth o Ddiolchgarwch am y Cynhaeaf ar nos Sul, 20 Hydref. Cafwyd pregeth amserol gan y Parchedig Gordon Owen o Benrhosgarnedd a rhoddodd plant yr Ysgol Sul eitemau yn ystod y gwasanaeth. Diolch i bawb a gyfrannodd ffrwythau.

YSGOL SUL UNDEBOL. Mae cyfnod i noddi Katilau Singano, y ferch o Kenya, wedi dod i ben, ond rydym am barhau i helpu teuluoedd difreintiedig yn y wlad.

Mae Cymdeithas ActionAid yn gweithredu cynllun Y CAM NESAF, sy'n trefnu prosiectau i ddarparu gofal iechyd, addysg a dŵr glân, a pharatoi cyfleon i oedolion i ddysgu sgiliau fydd yn helpu teuluoedd i'w cynnal eu hunain.

Trwy ymuno â Y CAM NESAF, byddwn yn helpu cymunedau yn hytrach nag un person. Fe dderbyniwn lythyrau a lluniau ddwy waith y flwyddyn, ac adroddiadau gan aelod o staff ActionAid.

£180 yw'r swm y byddwn yn ei anfon i'r Gymdeithas, ac mae £130 ohono gennym eisoes - £40 o arian llynedd ddaeth i law yn hwyr a £90 a gasglwyd yn y Gymanfa eleni.

Bwriadwn gasglu gweddill yr arian trwy gael Ysgol Sul gyda'n gilydd yn festri Ebeneser, Deiniolen am 10 o'r gloch fore Sul, 10 Tachwedd. Yn ystod yr amser cynhelir cyfnod o 10 munud o ddarllen distaw nodedig. Gwahoddir holl aelodau'r Ysgolion Sul, plant ac oedolion, i ddod â'u hoff Feibl neu lyfr storïau Cristnogol i gymryd rhan.

Yn y pythefnos nesaf, gofynnwch i'ch teulu a'ch ffrindiau eich noddi - mae ffurflen ar gyfer hyn. Os caiff pawb nifer bach o noddwyr, byddwn yn siŵr o gasglu digon o arian.

Edrychwn ymlaen i gael hwyl gyda'n gilydd ar 10 Tachwedd ac ar yr un pryd helpu teuluoedd llai ffodus na ni.

Cefnogwch
ein

Hysbysebwy

'Coparet' Deiniolen

Ceisiasf adrodd peth o hanes 'Coparet' ein pentref ni, Lle mae tyrfa yn barhaol Sydd yn uchel iawn eu cri. Mae 'na sgandal, sgwrs a straeon, Beio'r staff am bopeth bron, Hwythau, druan, tawel ydynt Gwell na'r 'dôl' yw job fel hon.

Gwyddoch oll am un sydd annwyl Yng nghalonau llawer merch, Ond er ceisio calon Hywel Ni rydd iddynt ddim o'i serch, Mae yn gyfrwys ar y cownter, Gwylwch ef a'i eiriau teg, Gwna ei ddawn fel hen adroddwr Droï ei eiriau i gyd yn fêl.

Rhof gyfrinach arall i chwi Am beryclach un na'r llall, Huw 'y bara' yw ei enw, Meddwl mae fod pawb yn ddall. Daw â bara yn y bore Gyda chân a gwên fel mêl, Bara 'fresch' i bobl craill, I Coparet maent oll yn 'stale'.

Nesu mae at ddiwedd blwyddyn, Mae y staff yn brysur iawn; Derbyn nwyddau, gweithio'n galed, Mae y silffoedd oll yn llawn. Daw y 'Dolig, mae yn ymyl (Er y gwêl y plant o'n hir), Ond gofawch, hen gyfeillion Fod eich llyfrau oll yn glir!

Mae amserau gwell am ddyfod Mi gawn eto ddatlu'n llon, Beth fydd well na derbyn discownt Ar ôl blwyddyn ddrud fel hon. Cewch eich talu ar nos Fercher, Mawr ddarogan faint a fydd, Ni chawn wybod gan y 'Pwyllgor' Ond, gyfeillion, rhaid cael ffydd.

Enw awdur hyn o eiriau Yw'r 'assistant' Dafydd Jôs, Ac os celwydd a ddywedais Ni chaf eto gysgu'r nos. Chwithau hoff gwsmeriaid ffyddlon Cyn i'm ddweud 'Nos Da' i chwi, Byddwch ar eich gwylidwriaeth Pan wnewch alw yn 'siop ni'.

Bu'r diweddar Dafydd Jones, gynt o Porth y Gogledd, Deiniolen yn gweithio yn y Cop, Deiniolen am rai blynnyddoedd ar ôl darford yn y fyddin yn 1945. Roedd y siop a'r pentref yn ei anterth ar y pryd. Bu Dafydd farw yn sydyn ar 17 Gorffennaf 1972, yn 48 mlwydd oed. Ysgrifennodd y rhigwm hwn ar y pedwerydd o Ragfyr 1957.

Alwyn a Sarah Jones

BLODAU

RACCA
PENISARWAUN

Blodau ar gyfer pob achlysur

Dewis da o Lysiau Fferm

Wyau Free Range

Ar agor saith diwrnod

870605



Danfôn 7 diwrnod
yr wythnos
drwy'r fro

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

WYTHNOS O
WEITHGAREDDAU EGLWYS
SANTES HELEN
AWST 12 - 18ed 2002

Dyma restr o enillwyr
cystadlaethau'r Carnifal. Y
Beirniaid oedd Mr a Mrs Morgan
Evans, Pentre Berw, Ynys Môn

Addurno het: 1. Joe Thomas
Addurno pram: 1. ADDA AC
EFA, Leann & Glesni Jones.

Addurno beic: 1. Hanna
Thomas; 2. Joe Thomas.

Unrhyw bar dan 12 oed: 1. BILL
a BEN, Elin Williams a Thomas
Parry; 2. TEDDY BEARS
PICNIC, Sioned Alys a Elen
Gwenllian Morris; 3. JAC JWC a
SALI MALI, Cerin & Celyth Green
a STEWART LITTLE & LITTLE
BLACK CAT, Bryn a Ceri Jones
Roberts.

Unrhyw bar dros 12 oed: 1.
POLICEMAN PUW a SALI MALI,
Wil a Jean Jones; 2. TOM
JONES a SHIRLEY BASSEY,
Selwyn Griffith ac Ann Paterson a
PAR O YSBRYDION, Jeniffer
Hughes a Janice Lamerick.

O dan oed ysgol

1. BOB THE BUILDER, Jordan
Jones a KARATE KID, William
Lamb; 2. TINKERBELL, Annia
Evans a TYLWYTH TEG, Magi
Tudur; 3. LADY BIRD, Carina
Collins.

Blwyddyn 0: 1. JAC Y JWC,
Cerin Green a GATH FACH DDU,
Ceri Roberts.

Blwyddyn 1 a 2: 1. SPIDER
MAN, Nathan Hughes a
CLEOPATRA, Glesni Jones; 2.
TYWYSOGES JASMINE, Katy
Lewis; 3. MERCH HWLA HWLA,
Alicia Jones a PETER PAN,
Thomas Evans

Blwyddyn 3 a 4: 1. ESTRYS
PIGGOT, Sion Dafydd Phillips; 2.
CINDERELLA, Catrin Jarvis; 3.
FAIRY GODMOTHER, Bethan
Gaffey.

Blwyddyn 5 a 6: 1. MICKEY
MOUSE, Gethin Phillips; 2.
TWEENIES, Dylan Wyn Roberts.

Uwchradd hyd at 15 oed: 1.
BRYN TERFEL, Ceri Jones.

Dros 15 oed: 1. GEMAU Y
GYMANWLAD, Roberta Griffiths;
2. BREAR RABBIT, Mr Salisbury;
3. CLOWN, Wendy Phillips a

SHIRLEY BASSEY, Ann
Paterson.

Unrhyw grŵp: NEB YN
CYSTADLU

Gorau o'r enillwyr: ESTRYS
PIGGOT, Sion Dafydd Phillips.

Enillwyr Raffl y Carnifal:

HAMPER: Mrs B Roberts; RUG
(Rhodd gan) ROSS HUGHES
FLOORING: Miss Carol Adlam;
TEDDY BEAR: Mrs Helen Jones;
TOCYN £20.00 (Rhodd gan Y

GLYNTWROG, LLANRUG): Mr
Selwyn Griffith; TOCYN £10.00

BOOTS: Mrs E J Williams, Mrs
Helen Jones; TOCYN £10.00

(Rhodd gan NORTH WALES
ANGLING, CAERNARFON): Mrs

Mathews; CINIO DYDD SUL I
DDAU (Rhodd gan) Y

SNOWDON, CWM Y GLO: Mrs
Janet Ash; TRIP MEWN CWCH I

DEULU (Rhodd gan) SEREN Y
WYDDFA, LLANBERIS: Mrs

Margaret Christian; GWIN
GWYN: Mrs Gwen Roberts;

GWIN COCH: Green ticket No:
179; BAG: Cath Jones, Nant

Peris; DOL BARBBIE: Jane
Evans Tregarth; DESGIL O

FELYSION: Mr David Phillips;
PECYN POKEMAN: Mrs Helen

Owen; FFRAM LLUNIAU: Mary 4
Bryn Eglwys.

Enillwyr Raffl yr Ŵyl Flodau

HAMPER FAWR: Mrs Ann Parry;
HAMPER FACH: Mr John Read,

Llangoed; CLOCK: Selwyn
Griffith; CLOCK LARWM: Sarha

Siop Gron; NWYDDAU MOLCHI:
Miss Nancy Williams; PLAT

LLECHAN: Mrs Nancy Owen,
Llanllyfni

ENWI'R LLEW: Enw'r llew yw
LLYWELYN Nid oes neb wedi

hawlio' llew, mae'r enw ar y
cerdyn yn anodd i'w ddeall. Mi

fyddwn y ddiolchgar iawn i pwy
bynnag a ddewisodd yr enw cywir

gysylltu ac unrhyw aelod or
pwyllgor.

ENWI'R GWNINGEN: Enw y
gwningen yw LEA. Enillydd yw

Mrs Rene Evans

HELFA DRYSOR Enillwyr yr
Helfa Drysor oedd Mr & Mrs

Clifford Williams a Mr & Mrs
Gwynfor Roberts

Mae pwyllgor y Carnifal am
diolch i bawb a gefnogodd y

gweithgareddau drwy'r wythnos,
gyda diolch arbennig i'r rhai a
wisgodd i fyny yn y Carnifal.

Diolch yn fawr i Fand Arian
Deiniolen a Gwenllian y Red
Dragon Theatre Petal am arwain
yr orymdaith, ac i'r beirniaid ac yr
arweinydd drwy'r wythnos am eu
gwaith ac'r hwyl.

Mae ein diolch yn fawr hefyd i'r
rhai a gymerodd ran yn y
Gymanfa Ganu ar nos Sul 18
Awst yn yr Eglwys, Côr Meibion
Dinas Banor a'i harweinydd Mr
James Griffith, Mr Robin Jones
Bethel am arwain y canu, Mr Cyril
Williams yr organydd ac i bawb
arall a gymerodd rhan. Diolch
arbennig iawn i adran ail-gylchu
dodrefn Antur Waunfawr, Cibyn,
Caernarfon am y piano i'r Eglwys.

Yr ydym yn ddiolchgar iawn
am yr anrhegion tuag at y raffl a'r
rhoddion arianol tuag at yr Ŵyl
Flodau a'r Carnifal.

YR YSGOL GYMUNED.

Ddydd Mawrth, 16 Hydref bu
dathlu mawr yn yr ysgol gan fod
yr adeilad hardd yn ddeg oed.
Mwynhawyd cyngerdd yn llawn
clod i'r ysgol gan yr holl blant. Bu
canu, adrodd, sgetsus a
recordyddion, a hynny'n glodwiw
dros ben. Derbyniwyd cyfarchion
gan amryw a chyflwynwyd rhodd
o'r Anthem Genedlaethol mewn
ffrâm gan y Cyngorydd Pat
Larsen a agorodd yr ysgol ddeng
mlynedd yn ôl.

Bwriada Pwyllgor Rheoli'r
Neuadd Gymuned gael cwpwrdd
i arddangos tlysau a chwpanau
gyda phlac bychan i ddathlu'r
degawd cyntaf.

Llongyferchir holl staff a phlant
yr ysgol am y dathliad a dywed
'Cân y Fendith', a ganwyd gan
holl blant yr ysgol y cyfan:

'Bendithiwn athrawon,
Gofalwyr, cogyddion,
A helpa nhw heddiw ym mhob
peth a wnant,
A holl blant ein hysgol,
Bendithia Dad nefol,
Dy gariad fo yma'n ein canol.'

Pob bendith i'r degawd nesaf.
ADRAN BENTREF YR URDD.
Bydd Adran yr Urdd yn cychwyn
nos Fercher, 20 Tachwedd am
6.30 o'r gloch. Tâl aelodaeth fydd
£4.50 am y flwyddyn ac 20c am
ddiod a bisged. Croeso cynnes i
bawb o'r oedran Blwyddyn 2 i
fyny. Bydd manylion llawn ar gael
wedi'r Eisteddfod Bentref.

EISTEDDFOD BENTREF.
Cynhelir yr Eisteddfod ddydd
Sadwrn, 16 Tachwedd i gychwyn
am 1 o'r gloch yn y Neuadd
Gymuned. Mynediad drwy raglen
50c. Bydd egwyl a lluniaeth
ysgafn ganol y prynhawn. Am fwy
o fanylion, rhaglenni a thestunau
cysylltwch ag Elizabeth
Woodcock ar 870121.

LLONGYFARCHIADAU i Avril a
Geraint Williams, Careb ar ddod
yn nain a thaid unwaith yn rhagor.
Ganwyd mab bychan, Meilir, i
Sioned a Gwyn a brawd a ffrind
bach i Tomos. Bob bendith i chwi
fel teulu.

Fe ddathlodd Arwel, Cae
Eboni ben-blwydd arbennig yn
ddiwedd. Cyfarchion arbennig i
ti, Arwel.

GWELLHAD. Rydym yn anfon
ein cofion cynhesaf atoch chwi
sy'n sâl yn y pentref ac yn

dymuno adferiad buan i chwi.
Anfonir dymuniadau gorau at
Eurwyn Jones, Camelot sy'n
derbyn triniaeth yn Ysbyty
Gwynedd.

PWYLLGOR NEUADD.

Cynhaliwyd y Cyfarfod Blyneddol
nos Lun, 7 Hydref. Yn dilyn
cafwyd Pwyllgor i drefnu
gweithgareddau pellach. Cynhelir
Noson Calangaeaf nos Iau, 31
Hydref yn y Neuadd Gymuned
am 6.30. Bydd cystadlaethau
amrywiol i wahanol oeddrannau,
mwig, jac lantarn, ysgub,
gwisg, swynion a theisen
Calangaeaf. Bydd diod a chŵn
poeth ar gael ynghyd â raffl.
Tynnir Clwb Cant Hydref ar y
noson. Gobeithir cael Noson
Wasael o gwmpas y Nadolig.

Hyfryd oedd cael dathlu
degawd cyntaf yr ysgol yng
nghwmni staff a phlant yr ysgol.
Diolch iddynt i gyd am gofio'r
achlysur mewn modd arbennig
iawn. Y mae'r pwyllgor yn
ymhyfrydu hefyd yn y defnydd
helaeth a wnaed ac a wneir o'r
Neuadd Gymuned. Dymunir yr un
brwdfrydedd i'r degawd nesaf.

YSGOL SUL UNDEBOL
BOSRA. Y mae'r Ysgol Sul wedi
ailgychwyn ac atgoffir ein
haelodau ifanc y byddwn yn
ymuno ag aelodau Ysgolion Sul
Ebeneser, Deiniolen a
Thabernacl, Cwm-y-glo fore Sul,
10 Tachwedd mewn Darllen
Tawel Noddedig i godi arian i
helpu teuluoedd difreintiedig yn
Kenya. Felly dowch a'ch hoff
Feibl neu lyfr storïau Cristnogol i
gymryd rhan.

Bnawn Sul, 20 Hydref cafodd y
plant gyfle i weld a deall
arwyddocad gweinyddu'r Cymun
Bendigaid. Cynhaliwyd Sul y
Teulu yng ngofal Mr Merfyn
Jones, a eglurodd ystyr y Cymun
i'r plant ac a fu'n sgwrsio â hwy.
Diolchir i'r plant a'r athrawon am
gymryd y rhan dechreuol ac am y
caneuon i ddathlu'r
Diolchgarwch. Gobeithir cael Sul
y Teulu eto yn fuan.

PLYGU'R ECO. Dymunir diolch i'r
criw bychan ffyddlon a ddaeth i
blygu'r Eco yn Neuadd yr Eglwys.
Bu plygu diwyd o 5.30 ymlaen a
chwblhawyd erbyn 7.40. Diolchir i
Swyddogion yr Eglwys am gael
defnyddio'r Neuadd.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN
Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe
awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen
profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant
llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

cyngor
ar
bopeth

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

Roedd dydd Gwener 18fed o Hydref yn ddiwrnod cymysglyd iawn i blant ysgol Bethel. Roeddynt yn hapus am fod wythnos o wyliau o'u blaenau ond yn drist hefyd oherwydd bod rhaid ffarwelio ag Anti Eiriona, cogyddes yr ysgol.

Bu Mrs Eiriona Williams yn gweithio yn yr ysgol ers 32 o flynyddoedd. Cafwyd cyfarfod ffarwelio yn yr ysgol bawn dydd Gwener pryd y cyflwynwyd anrheg a blodau iddi ar ran rhieni, plant ac athrawon yr ysgol. Yn ystod y cyfarfod cyd lefarodd plant blwyddyn 3 y gerdd 'Cinio ysgol'. Perfformiodd genethod blwyddyn 6 ddrama fer yn sôn am helyntion mewn cegin ysgol pan aeth pobeth o chwith. I orffen y cyfarfod canodd y plant gân o ddiolch i Anti Eiriona. Cyflwynwyd anrheg i Mrs Williams hefyd gan Mr Dafydd Jones ar ran Gwasanaethau Masnachol Gwynedd fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth. Dymuniadau gorau i Anti Eiriona ar ei hymddeoliad **MERCHED Y WAWR**. Cynhaliwyd yr ail gyfarfod o'r tymor yn yr ysgol ac, yn dilyn canu Cân y Mudiad, croesawyd pawb gan y Llywydd, Beti Owen.

Llongyfarchwyd Margaret Eckley ar ddod yn nain unwaith eto a Ffion Meleri, merch Anita Owen, am gael ei dewis yn brif ddisgybl Ysgol Brynrefail. Cydymdeimlwyd â theulu Alys Jones yn dilyn ei phroffedigaeth o golli ei mam yng nghyfraith yn ddiweddar.

Hysbyswyd y Gangen am weithgaredd y Pwyllgor Rhanbarth, sef Noson Plygain i'w chynnal ddechrau'r flwyddyn, gyda Deilwen Hughes yng ngofal paratoi Parti Canu.

Yn anffodus roedd y gŵr gwadd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch ond fe lanwyd y bwch ar fyr rybudd gan y Parchedig Marcus Robinson. Cafwyd ganddo sgwrs hynod o ddiddorol yn sôn am ei brofiadau fel 'Cofî Dre' pan yn fachgen yng Nghaernarfon. Soniodd hefyd am nifer o gymeriadau oedd wedi gwneud argraff arno dros y blynyddoedd. Cafodd ei fagu yng Nghaernarfon ac ar ôl teithio'r byd fel Caplan yn y Llynges

dychwelodd yn ôl gyda balchder i'w wreiddiau. Diolchwyd iddo ar ran y Gangen, ac hefyd i ferched y te gan Glenys Griffiths, a Margaret Williams enillodd y raffl. Rhianon Roberts, Caeathro fydd yn cadw cwmni i'r aelodau y mis nesaf. **CLWB BRO BETHEL**. Cynhaliwyd cyfarfod mis Hydref yn Festri Bethel a'r gŵr gwadd oedd y Parch R. E. Hughes, Nefyn. Cawsom sgwrs ddifyr iawn am 'Allweddau' pryd cafodd pawb fwynhad mawr. Diolchwyd iddo gan Mr W. James.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Festri Cysegr ar 5 Tachwedd a'r siaradwr fydd Mr H. P. Hughes, Bethel. **Y GYMDEITHAS LENYDDOL**. Cynhaliwyd noson agoriadol y gymdeithas nos Fawrth, 15 Hydref yn Festri Cysegr.

Sian Gibson a'i pharti oedd yn gyfrifol am yr adloniant a chafwyd orig ddifyr iawn yn eu cwmni. Roedd yr aelodau wedi eu swyno gan leisiu'r merched ac amrywiaeth y rhaglen. Diolchwyd iddynt gan Mr Jenkin Griffith. Paratowyd lluniewth i bawb gan y pwyllgor. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 19 Tachwedd am 7.15 yn Festri Cysegr pan gawn sgwrs gan Olga Lloyd Jones yn sôn am Cyfrinach y Gwenyn.

CLWB 100 Y CLWB PÊL-DROED £100: Iwan Jones, Bethel; £50: J. Newell, Caernarfon; £25: Margaret Williams, Bethel; £25: Marcus Robinson, Bethel; £10 yr un i'r canlynol: John Morgan; Gwilym Williams; Aled Williams; William Robinson; Dylan Jones; Maldwyn Hughes; Elen Fowkes; Dylan Roberts; M. J. Gree; Pat Griffiths, HSBC Bangor; M. Bardsley; Huw Williams; Darren Jones; Iona Williams; Mathew Gossett, Y Felinheli; Margaret Olga Davies; A. L. Hughes; Idris Morris; Daniel Jones; J. G. Morgan, Rhosgadfan.

I ymuno â'r clwb cysylltwch â Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Ffôn (01248) 671469.

CLWB 100 Y NEUADD. Mae casglwyr y Clwb 100 bellach yn casglu taliadau yr aelodau sydd am ail-ymlaeodi. Bydd y gwobrau yn cael eu tynnu yn ystod un o weithgareddau'r Eisteddfod. **DIOLCHGARWCH**. Fore Sul, 13

Hydref cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yr Ysgol Sul yn y Cysegr. Cafwyd cyfarfod bendithiol iawn gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan yn effeithiol iawn. Cyflwynir y casgliad i Ward y Plant, Ysbyty Gwynedd. Bore Sul, 20 Hydref y cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch Bethel, eto gyda phlant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan a'r gweinidog,

y Parch Gwynfor Williams yn eu hannerch. Cyflwynwyd ffrwythau'r plant i breswylwyr St Teilo.

DIOLCH. Dymuna Beryl Parry, Hafod Elen ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau gorau a dderbyniodd pan oedd yn yr ysbyty. Diolch yn fawr.



Eiriona (Cogyddes Ysgol Bethel).

Y maeth roddwyd a mwytha – yn bwddin
Eu bwydo a geirda.
O'i bowlen llanwyd boliau
Lluniaeth ddaeth gan fenyw dda.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Cynhelir y gwasanaethau canlynol ar Suliau Tachwedd:

3 10.00: Diolchgarwch
Gwasanaeth teuluol hefo
Dafydd Iwan a phlant yr Ysgol Sul;
10 11.00: Ysgol Sul;
17 11.00: Ysgol Sul
2.00 Parch Dafydd Hughes;
24 11.00 Ysgol Sul.

Disgwylir bydd pob gwasanaeth yn y Capel ar ei newydd wedd. Bydd Pwyllgor Gwaith y swyddogion am 8.00 yr hwyr nos lau, 28 Tachwedd.

PWYLLGOR CAE CHWARAE. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas y Cae Chwarae Caeathro ar gyfer

mis Hydref oedd: £40: (85) O. Williams, 18 Glan Gwna Terrace; £25 (13) P. a V. Hughes, Pennant; £15: (37) C. Roberts, 1 Hen Gapel; £5 (40) A. Griffiths, 4 Glan Gwna Terrace.

CYFARFOD BLYNYDDOL. Bydd Cyfarfod Blynnyddol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro ar nos Lun, 18 Tachwedd yn y Ganolfan. Bydd rhaid ethol swyddogion newydd a dyma gyfle i rieni eraill ymuno â'r pwyllgor.

PENCAMPWRAIG. Eleni mae Hannah Hughes yn Pencampwraig Gogledd Cymru mewn Jiwdo. Hefyd bydd yn teithio i'r Palas Cristal Llundain i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain.

R. L. DAVIES

Coed Bolyn Mawr, Bethel

JCB Fastracs a trailers 16 tonnall
diggers bychain ac excavators 360° newydd
a llawer mwy



- ar gyfer llogi peiriannau
- tyllu footings
- clirio gerddi
- neu unrhyw waith clirio safleoedd

Ffoniwch am fanylion

(01248) 671300

neu (07775) 638620

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI

Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Serch, new Gwyltrefnied

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed **£££** i'ch
ys yn ymestyn oes eich car

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

CÔR MEIBION DYFFRYN PERIS
Ymddiheuriad: Yn y rhifyn diwetha o'r Eco cyhoeddwyd, o dan y pennawd uchod, fod Côr Meibion Dyffryn Peris wedi rhoi rhodd o £200 i Blas Pengwaith, Llanberis. Dymunir esbonio mai i Glwb yr Henoed Llanberis y rhoddwyd yr arian.

UNDEB Y MAMAU. Yn dilyn seibiant yr haf ail gychwynnodd y cyfarfodydd misol bawn dydd Mawrth ar 1 Hydref. Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Barch Vittoria Hancock. Darllenwyd rhan o'r Ysgrhythur gan Mrs Audrey Evans. Yn dilyn yr oedd ychydig o faterion busnes i'w trafod.

Anfonwyd cyfarchion o wellhad buan i Mrs Clara Roberts ar ôl ei llawdriniaeth a'i arhosiad yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Croesawyd Mrs Bet Hughes yn ôl atom, hithau wedi cael arhosiad yn yr ysbyty. Roeddym yn falch ei bod yn gwella yn ara deg.

Mrs Nellie Morris oedd yn ymorol am y lluniaeth ysgafn a diolchwyd iddi hi a Vittoria gan Mrs Nan Owen, gyda Mrs Hilda Williams yn eilio. Mrs Bet Hughes oedd enillydd y raffl.

Diweddwyd drwy adrodd y Gras. **DYMUNA** Mrs Carrie Hughes, 5 Padarn Road, ddiolch o galon am yr holl gardiau o ddymuniadau da, y llw anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig yn 80 oed. Diolch i bawb am eu caredigrwydd.

DYMUNA Bert Parry, Sycharth,

Stad Preswylfa ddatgan ei werthfawrogiad diffuantaf am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei waeledd. Diolch yn arbennig i feddygon a staff meddygfa Waunfawr a Llanrug, holl staff Ysbyty Gwynedd a Manceinion ac hefyd i'r Parch John Pritchard a holl aelodau Capel Coch a Nant Padarn.

DYMUNA Mrs Clara Roberts, 'Anfield' ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau am yr holl gardiau, blodau, galwadau ffôn tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

DYMUNA Côr Lleisiau Lliwedd ddiolch i Hogia'r Banc ac Aneuryn am eu cyfraniad at noson lwyddiannus a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Dolbadarn yn ddiweddar. Bu'r Côr yn brysyr y mis diwethaf yn cynnal Nosweithiau Llawen yn y Bontnewydd a Llangaffo, Sir Fôn. Mae'r Côr yn mynd ymlaen o nerth i nerth a dymunwn groesawu aelodau newydd atom.

DIOLCH. Dymuna Mrs Gwyneth Davies a'r genod, 61 Ronald Avenue, Cyffordd Llandudno (gynt o Olgra Terrace, Llanberis), ddiolch am y llu cardiau, galwadau ffôn a'r ymweliadau yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid. Mr Wilfred Wyn Davies, ar 25 Medi 2002, wedi cystudd hir.

Cynhaliwyd yr angladd yn Eglwys St. Ffraid, Glan Conwy ar 1 Hydref 2002. Casglwyd y swm £320 er cof am Wilf tuag at Eglwys St. Ffraid, Glan Conwy lle bu yn

aelod ffyddlon a lle cafodd nerth i wynebu ei salwch drwy ffyddlondeb cyson y Parch Christine Owen.

DIOLCH. Dymuna Mrs Nellie Wyn Jones, 7 Bro Cadfan, Rhosgadfan (gynt o Llwyn Dyrus) ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu cydymdeimlad drwy gardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau ar farwolaeth ei hefaill, Mr Wilfred Wyn Davies, yn 68 mlwydd oed gartref yn 61 Ronald Avenue, Cyffordd Llandudno ar 25 Medi 2002, wedi cystudd a ddiodefodd yn ddewr am gyfnod hir.

YSGOL DOLBADARN

Croesawyd 25 o blant bach i'r dosbarth Meithrin eleni a chychwynnodd 19 ar eu haddysg llawn amser yn y dosbarth Derbyn. Croeso mawr iddynt i gyd.

Croesawn hefyd Miss Catrin Williams i'n plith i ddysgu Bl 4/5 a daeth Mrs Eirian Owen yn ôl i ddysgu Blwyddyn 2 ar ôl cyfnod seondiad i Cwmni Cynnal. Croeso hefyd i Miss Manon Jones sy'n ymgymryd â dysgu'r plant Llythrennedd y Teulu ac mae Helena Palambo gyda'r rhieni.

Rydym yn falch hefyd o glywed fod Mrs Meirwen Williams wedi rhoi genedigaeth i ferch fach, sef Swyn Haf. Llongyfarchiadau iddi hi a'i gŵr, Dewi, a phob dymuniad da iddynt fel teulu.

Cynhaliwyd noson gymdeithasol gan Ffrindiau'r Ysgol ar 25 Medi yng Ngwesty Padarn Lake gydag Elwyn a Gareth yn canu ond yn anffodus siomedig iawn fu'r gefnogaeth i'r noson. Diolch i Mr Elwyn Evans a Gareth am roi o'u hamser ac i Westy

Padarn Lake am eu cyfraniad hael. Enillwyr Clwb Cant Hydref 2002 oedd 1. (159) Heulwen Edwards; 2. (061) Gwenda Roberts; 3. (075) Gwynfor Jones; 4. (035) Iola Owen; 5. (175) John Roberts.

Rygbi: Cynhaliwyd Twrnament Chwaraeon y Dalgylch ar 17 Hydref a chafodd pob un o blant yr Adran lau gyfle i gymryd rhan.

Yn Capel Coch y cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch eleni gyda'r plant i gyd yn cymryd rhan. Casglwyd swm o arian at elusennau yr oedd rhai o blant yr ysgol yn gysylltiedig â hwy.

Dymunwn yn dda i Mrs Iona Ceiriog sy'n mynd ar gyfnod o famolaeth ar ôl hanner tymor ac edrychwn ymlaen i groesawu Miss Rhian Roberts yn ei lle i ddysgu dosbarth 3/4.

Hwyl fawr i Ryan Lewis sy'n symud i Ysgol Llanrug.

CYMDEITHAS YR EGLWYS. Cynhaliwyd y Gymdeithas nos lau, 3 Hydref yn Angorfa. Cymerwyd y rhannau agoriadol gan Mrs M. Lennon gyda Mrs A.P. Jones yn y gadair. Croesawyd y wraig wadd, sef Mrs Tegwen Morris, Llanberis yn siarad am aromatherapi, ac hefyd fe roddodd berfformiad o'r gwaith ar un o'r aelodau. Diolchwyd iddi hi ac i Mrs Margaret Griffiths am y baned a'r raffl gan Heulwen Edwards, a'r enillydd oedd Bett Hughes. Gwellhad buan i'r aelodau, sef Clara Roberts, Alwena Morris, Betty Humphreys, Ralph Jones a Stanley Owen. Hefyd dymuniadau gorau i Buddug a Brian Wakeham ar eu Priodas Ruddem, ac fe ganwyd pen-blwydd hapud i Anti Gracie yn 86 oed

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod

Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

BLYNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

Cyngor Cymuned Llanberis

Cyfarfu'r Cyngor yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau, 17 Hydref gyda'r Cyngorydd Dei Tomos yn y gadair. Croesawyd Dafydd Wigley A.C. i'r cyfarfod a chafwyd amlinelliad ganddo o'i waith yn y Cynulliad, a'r modd y datblygodd y Cynulliad ers ei sefydlu. Cafwyd trafodaeth ar nifer o wahanol bynciau gan gynnwys Goriad Gwyrdd Eryri, trosedd, trafniadaeth a chystadleuaeth yr 'Ironman'. Bydd nifer o'r sylwadau yn cael sylw pellach gan yr Aelod a'r Cyngor.

Adroddwyd fod difrod wedi ei wneud i ffens newydd yng nghae chwarae Frondeg.

Derbyniwyd gwybodaeth fod cyfarfod wedi ei drefnu i drafod problemau beicio ar lwybr yr Wyddfa, a bod gwahoddiad i anfon cynrychiolydd ar ran y Cyngor. Yn ogystal, cytunwyd i estyn gwahoddiad i Barbara Jones o Barc Cenedlaethol Eryri i fynychu cyfarfod o'r Cyngor ym mis Ionawr i roi adroddiad ar raglen mynediad cyhoeddus i diroedd agored.

Adroddodd y Clerc nad oedd fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn ymwneud â'r Archwiliad Mewnol wedi eu derbyn.

Rhannwyd crynodeb o brif bwyntiau'r Cynllun Unedol newydd i'r aelodau a

derbyniwyd sylwadau ysgrifenedig. Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cadeirydd i fwrw golwg dros y cyfan ac i gysylltu â'r Clerc er mwyn anfon sylwadau terfynol i Gyngor Gwynedd erbyn diwedd y mis.

Bydd swydd y Clerc yn cael ei hysbysebu yn y Wasg, gyda'r dyddiad cau ar ddydd Mercher, 20fed o Dachwedd.

Ystyriwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, ac nid oedd gwrthwynebiad i adeiladu storfa yn Crib Coch; cryfhau tomennydd chwarel Dinorwig; estyniad i Afon House; gosod antenna O2 ar dir ger Hafod Lydan; estyniad i Frongoch, Nantperis ac adeiladu garej ddwbl ger 6 Tai Fictoria. Nid oedd gwrthwynebiad i leoliad tŷ yng ngardd Dôl Peris, Llanberis, ond roedd y Cyngor yn gwrthwynebu dyluniad y tŷ gan na fyddai'n cydweddu â'r gwaith carreg ar y gwesty gwreiddiol. Penderfynwyd gwrthwynebu cais am osod carafan static ar dir agored ger Gwesty Lake View.

Derbyniwyd gwybodaeth am y gost o wneud asesiad risg o gerrig beddi, a phenderfynwyd parhau â'r drefn bresennol, o gofio fod yr Archwiliwr Mewnol eisoes wedi cymeradwyo'r archwiliad misol.

Cafwyd gwybodaeth fod rhan o lwybr cyhoeddus rhif 36 drwy chwarel Dinorwig wedi ei gau dros dro oherwydd gwaith cryfhau'r tomennydd.

Derbyniwyd ateb gan Gyngor Gwynedd ynglŷn â geifr Parc Padarn, a phenderfynwyd gofyn am gynrychiolaeth ar unrhyw bwyllgor a drefnir yn y dyfodol i drafod y problemau.

Derbyniwyd adroddiad am yr ymgynghoriad ynglŷn â Goriad Gwyrdd Eryri, a chytunwyd i'r Cadeirydd fwrw golwg drosto ac adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

Trafodwyd cystadleuaeth yr 'Ironman'. Roedd y Cyngor yn gresynu fod cymaint o lanestr wedi ei adael ar ôl ar Gae'r Ddôl yn dilyn y gystadleuaeth, ac yn teimlo hefyd na fu digon o ymgynghori rhwng y trefnwyr â'r bobl leol ynglŷn â chau'r ffyrdd dros gyfnod y ras. Er hynny, teimlid fod y gystadleuaeth wedi bod yn llwyddiant, ac y mae'r Cyngor yn siomedig fod y trefnwyr wedi penderfynu peidio â bwrw 'mlaen â'r gystadleuaeth yn yr ardal dros y blyneddoddd i ddod.

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal yn 'Angorfa', Llanberis ar nos Iau, 21ain o fis Tachwedd am 7.00 o'r gloch.

Cae Chwarae Frondeg Llanberis

Yn ystod y flwyddyn a aeth heibio, sicrhodd Cyngor Cymuned Llanberis ofal o Gae Chwarae Frondeg ar ran Elusen Tlodion Rhuthun. Yn y cyfnod hwnnw, mae'r Cyngor wedi gwario dros £1,000 ar glirio'r tir, a bydd costau clirio i'w hwynebu eto yn y dyfodol

oherwydd fod y chwyn Canclwm Siapaneaidd yn ffynnu yn y cyffiniau. Yn ogystal, adeiladwyd ffens ar un terfyn o'r cae oherwydd bygythiad hawlio'r tir gan unigolion. Gwnaethpwyd hyn i gyd er mwyn sicrhau lle diogel i chwarae i blant ifanc yr ardal hon o Lanberis.

Yn anffodus, o fewn ychydig ddyddiau i godi'r ffens, gwelodd rhywun neu rywrai yr angen i dorri adwy ynddi; a hynny heb gysylltu â'r Cyngor, na gofyn caniatad. Mae'n amlwg nad plant fu'n gyfrifol am y weithred, ond oedolyn neu oedolion. Mae'r Cyngor yn gresynu'n fawr at y weithred hon, mae'n golygu y bydd yn rhaid ystyried o ddifrif a oes gwerth mewn gwario arian trethdalwyr pan fo rhai unigolion yn anwybyddu ymgais y Cyngor i sicrhau lle diogel i blant ifanc chwarae. Byddai'r Cyngor yn ddiolchgar o dderbyn unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r difrod, a gellir cysylltu â'r Clerc neu unrhyw aelod.

Ceisiadau am Gymorth Ariannol

Gwahoddir ceisiadau gan gymdeithasau a mudiadau lleol sy'n dymuno cael cymorth ariannol tuag at eu costau cynnal.

Dylid anfon pob cais, ynghyd â'r daflen ariannol ddiweddaraf i Glerc y Cyngor, Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug, Caernarfon.

Y dyddiad cau ar gyfer pob cais yw 30ain o fis Tachwedd. Bydd y ceisiadau yn cael eu hystyried yng nghyfarfod mis Rhagfyr o'r Cyngor.

Bistro
LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy, urddasol a phersonol.

24 awr y dydd

Ffoniwch: Dylan (Llys) ar 871833

Symudol: 07778 127394

HEFYD



SERBYDDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac achlysuron arbennig eraill


J.M. JONES
A'I FEIBION
GWAITH CERRIG BEDDAU

Y Sgwâr Llanrug

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol Cerrig o bob math ar gael -

Ffôn: (01286) 672898 (dydd)
676285 (nos)

DAWES

TREK

ENERGY CYCLES

60 Stryd Fawr Llanberis

Beics a Barcudau

Partïau a Thrwsio Beics

Beics Ffordd a Mynydd,

BMX, Triathlon

Barcudau Hwyl, Chwaraeon

a Delta Powerkites.

Dewie Da



Oriau Agor

Gaeaf: 5 diwrnod yr wythnos:

Iau, Gwener, Sadwrn, Sul, Llun

Haf: 7 diwrnod yr wythnos ar

agor tan 6 pm

07980 742584 • 01286 871892 sales@energycycles.com

Airborne

OZONE

Newyddion Ysgol Brynrefail

Taith Ffrainc



'Tîm Cymru' yn y 'Stade de France' - Paris.

Dechreuodd y daith flinedig i Ffrainc am hanner nos ar yr unfed ar bymtheg o Orffennaf. Pawb yn edrych ymlaen i'r siwrnai ond fe gysgodd y rhan fwyaf ohonom nes cyrraedd porthladd Dover ac yna, ymhen rhyw awr a hanner, roeddym wedi cyrraedd Calais.

Yn ôl ar y bws wedyn ac edrych ar nifer o ffilmiau nes cyrraedd yr Hostel Ieuencid yn Strasbourg ar lan yr afon Rhine gyferbyn â'r Almaen.

Y diwrnod wedyn codi am saith, cael brecwast a mynd ar ein taith gyntaf i'r Senedd Ewropeaidd. O! roedd yn ddislas gwrando ar rhywun yn siarad mor hir, ond roedd yr adcilad yn hardd a diddorol ac fe gawsom gyfle i ofyn cwestiynau am yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod y dydd fe welsom y Gadeirlan yn Strasbourg ac fe aeth y rhai egniol i ben y Gadeirlan! Roedd yr olygfa yn wych ac wrth gwrs fe welsom y cloc cnwog. Wedi cinio mynd ar y 'minitrain' i ymweld â'r hen dref, hwyl fawr gyda phawb yn galw 'bonjour' ar bob Ffrancwr ar y stryd.

Gyda'r nos aethom ar yr afon L'III mewn cwch, roedd yn andros o ddol gyda chamlasau, hen dai a blodau hyfryd ym mhobman.

Ar y dydd Gwener aethom i farchnad enfawr Strasbourg, i bentref tlws Dabo a'r rhacadr yn Nideck. Roedd y tywydd yn grêt ac fe gawsom bicnig ar ben weha'r rhacadr. Hwyrach yn y prawn aethom ar daith Plan Incline, sef taith mewn cwch i lawr y lifft ac yna ar hyd y gamlas am rhyw hanner awr cyn mynd yn ôl i fyni'r lifft, ac wrth gwrs fe gawsom fynd i'r archfarchnad i siopa ar ôl swper.

Y trydydd diwrnod yn Strasbourg, a dyma ni'n cael y plws o fynd i weld ffatri KRONENBURG a chael shandi gyda 1% o alcohol!!! cyn mynd i ymweld â'r castell o'r un enw â'r lager.

Dydd Sul, gadael Strasbourg a chychwyn ar daith chwa awr i



Ymweliad â'r Chateau de Koenisbourg.



Strasbourg, ar y bont dros yr afon L'III.



Euro Disney, Paris. Boic 'pennysfarthing' go iawn i'r athrawon.

Paris. Lle enfawr a digon i'w weld. 'Tour' o gwmpas 'Stade de France' ac i fyni i'r ail lawr o'r Tŵr Eiffel. Golygfa fendigedig.

Wrth gwrs roedd diwrnod yn

Euro Disney yn binael i'r gwyliau ac amryw o'r disgyblion a'r athrawon wedi cyfarfod o leiaf un cymeriad Disney yno.

Cysgu bron yr holl ffordd

adref a chyrraedd yr ysgol am chwech y bore ar 23 Gorffennaf. Dyna beth oedd gwyliau!

Dyma deimladau rhai eraill oedd ar y trip:

Cadi Roberts: Wythnos flinedig ond llawn hwyl. Pawb wedi mwynhau eu hunain yn fawr.

Ifan Dafydd: 'Stade de France' yn wych. Cael mynd i stafelloedd newid tîm cenedlaethol y Ffrancwyr (rygbi a phêl-droed) ac yna gweld y trac rhedeg. Gwych, gwych, gwych!!!

Leigh Mathew Williams: Golygfeydd bendigedig. Y bwyd yn - ddiddorol - i ddweud y lleiaf. Genod 'smart' yn y disgo ac yn Euro Disney. Yn siŵr o fynd yn ôl cyn hir.

Kate Johnson: Mwynhau gweld y 'Notre Dame' ar ôl clywed amdano. Gwlad brydferth iawn ac edrych ymlaen at fynd yno eto.

Hannah Jones: Llawer o hwyl a gweld golygfeydd gwych. Wedi mwynhau cwmni'r athrawon tu allan i'r ysgol. Diolch yn fawr iddynt am roi i fyny hefo ni i gyd.

Orian Jones: Ardderchog, fe wnes fwynhau pob munud.

Alaw Ceris + Elin Jones: Wedi mwynhau Euro Disney a'r orymdaith yno. Elin yn cysgu yn y Senedd Ewropeaidd!!! Profiad bythgofiadwy ac yn edrych ymlaen at ddychwelyd rhyw ddydd.

Ffion Thorman Jones: Digon o atyniadau gwahanol yn Strasbourg a Paris ond y ffefryn oedd Euro Disney - diwrnod llawn hwyl. Anodd anghofio'r gwyliau yma.

Emma Smith: Ffantastic, gwerth chweil. Digon o ddillad newydd a llofnodion cymeriadau Disney. A'r bwyd Ffrengig yn wych.

Caroline Anderson + Kate Jones: Amser diddorol, dysgu llawer mwy o'r iaith a chyfarfod Almaenwyr a Ffrancwyr i ymarfer yr iaith.

Guto Llywelyn: Yr hostel yn hyfryd, digon i'w wneud yno a digonedd o fwyd yn Euro Disney yn amlwg fod y bechgyn angen mwy o fwyd na'r genod.

Cymdeithas Golff Cyn-ddisgyblion a Staff

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Mr Hugh G. Roberts, Caernarfon a gyflwynodd sic i'r ysgol am £230 yn dilyn y gystadleuaeth golff flynyddol rhwng y cyn-ddisgyblion a'r staff.

Does dim gwybodaeth pwy enillodd! Efallai y daw'r wybodaeth i law erbyn y rhifyn nesaf.

Athrawon Newydd

Estynnwyd croeso i dri aelod newydd ym mis Medi: Dr Emrys Read i'r adran Mathemateg o Ysgol y Creuddyn, Bae Penrhyn; Mr Andrew Sharrock, Pennaeth Ffiseg i'r adran Wyddoniaeth o Ysgol David Hughes, Porthaethwy a Miss Anwen Evans (wedi dychwelyd yn ôl i Gymru) o Ysgol Kingstone, Barnsley, i'r adran Economeg y Cartref. Gobeithio y bydd y tri ohonynt yn ymgartrefu yn ein plith ac yn mwynhau y naws arbennig sydd i Ysgol Brynrefail.

Ffarwelwyd â Mr Steven Rowlands, gafodd ei benodi yn Bennaeth Ffiseg yn Ysgol Syr Tomos Jones, Amlwch. Hefyd Mrs Ellen Lloyd Jones a benodwyd yn Bennaeth Economeg y Cartref yn Ysgol Dyffryn Ogwen Bethesda. Dychwclodd Mr Dewi Tudur Lewis i'r brifysgol ym Mangor wedi cyfnod yma fel Cymorthydd Dosbarth.

Dymuniadau gorau iddynt i gyd a diolch yn fawr am eu gwasanaeth i'r ysgol.

Llwyddiant Karate



Jennifer Jones 8S, yn gwisgo'r belt brown hefo streipen wen.

Cafodd Jennifer Jones 8S, o Lanrug, y drydedd wobwr mewn gornest Karate yn ddiweddar. Bu'n ymladd yn Macs Glas ym Mangor ac roedd yn falch iawn o'i pherfformiad.

Mewn 5 mlynedd mae wedi cyrraedd belt brown hefo streipen wen ac mae wrth ei bodd yn nosbarth ei sensei, Peter Hughes, yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon.

'Ffordd dda o gadw'n ffit a dod i adnabod llawer o bobl,' oedd geiriau Jennifer pan ofynnwyd iddi beth oedd y dynfa at Karate.

Pob llwyddiant iddi ac edrychwn ymlaen am fwy o'i hanes yn y dyfodol!

Hamlet, Profiad Bythgofiadwy



Y cast i gyd.

Cafwyd noswaith gyffrous a chafwyd llwyddiant arbennig iawn i griw o ddisgyblion o Ysgol Brynrefail yn Theatr Gwynedd ar 14 Hydref 2002. Roedd 15 o ddisgyblion blwyddyn 9 a 4 o flwyddyn 10 wedi bod yn ymarfer yn galed ers diwedd tymor yr haf i baratoi ar gyfer Gŵyl Ddrama Shakespeare i Ysgolion, i gyflwyno 'Hamlet'. Trwy gymryd rhan mae'r disgyblion wedi sicrhau bod Ysgol Brynrefail wedi cael ei chynrychioli mewn Gŵyl Genedlaethol.

Roedd perfformiadau o ddramâu Shakespeare yn cael eu cyflwyno trwy Gymru yn ystod mis Medi a Hydref 2002. Ni fydd yr Wyl yn cael ei chynnal eto am dair blynedd ac felly nid oedd hwn yn gyfle i'w golli. Perfformiodd Ysgol Brynrefail ar y noson agoriadol gyda Ysgol y Creuddyn yn cyflwyno 'A Midsummer Night's Dream' ac Ysgol Dyffryn Nantlle yn cyflwyno 'Romeo a Juliet'.

Matthew Powell oedd yn chwarae'r brif ran fel Hamlet ac Anwen Williams oedd ei gariad Ophelia, gyda Rhys Fleming fel

Polonius, ei thad. Rachel Williams a Kayleigh Jones oedd y Brenin a'r Frenhines ac Alice Lanceley oedd ysbryd yr hen frenin Hamlet. Saran Griffiths oedd Laertes, brawd Ophelia, Angharad Fisher oedd Horatio, ffrind ffyddlon Hamlet. Siôn Derfel oedd y 'gravedigger' a Jenny Hamer fel 'tour guide' gyda'i chriw o ymwelwyr, Hannah Thomas, Mathew Bowden-Roberts, Carmen Lloyd a Robert Williams. Perfformwyr 'y ddrama o fewn y ddrama' oedd Elin Mai Jones, Alaw Ceris, Sioned Jones a Michelle Allsup. Mr Euron Hughes a Ms Sara Maynard oedd yn cyfarwyddo ac mae'n rhaid diolch yn fawr iawn i Mrs Rhian Elis Owen, Miss Anwen Evans a Ms Eirwen Williams am fod yn gyfrifol am y colur ar y noson.

Cafwyd diwrnod llawn yn y theatr ar y dydd Llun - paratoi drwy'r dydd a chael dau ymarfer ffurfiol o flaen y cwmni Dramarama o Lundain. Roedd yn brofiad gwerth chweil o baratoi, hyfforddi a pherfformio fel actorion proffesiynol - yn wir, roedd yr aros ac oedi rhwng y perfformiadau yn union yr un fath ac y byddai i gwmni theatr proffesiynol, ac felly ymddangosodd Cwmni Brynrefail!

Gweithiodd ein actorion i



Yr ysbryd.

gyd yn galed iawn ac yn agos iawn - dim ond un gyfrinach oedd gan y cyfarwyddwyr, wedi ei gadw'n ddiogel tan ar ôl y perfformiad - sef bod y penglog a ddefnyddiwyd gan yr actorion, y ddelwedd enwog fydd o hyd yn gysylltiedig â'r ddrama, yn un gwir, ar fenthyg gan adran Bioleg yr ysgol. Daeth a lwc i'r actorion, mae'r cyfarwyddwyr yn sicr. Cafwyd ymdrech arbennig gan bawb a diolch yn fawr iawn iddynt i gyd am eu hymroddiad.



Hamlet (Matthew Powell).



Yr ymwelwyr a chriw'r ddrama tu fewn i'r ddrama.

ANTUR WAUNFAWR

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco gwelwyd, o dan y pennawd 'O'r Waun i Sain Ffagan' hanes dymchwel beudy Gadda.

Mae Antur Waunfawr wedi cofnodi'r hanes gam wrth gam drwy ffotograffau a gellir gweld yr arddangosfa yn Nhŷ Capel yr Antur.

* * *

Ddiwedd mis Medi cynhaliwyd Gŵyl y Gwyll ar safle Antur Waunfawr. Mae'r noson yma wedi sefydlu ei hun ers amser yng nghalendr digwyddiadau'r Antur ac unwaith eto y flwyddyn hon daeth nifer helaeth o bobl i fwynhau gwahanol gyflwyniadau yn sôn am greaduriaid fel tylluanod, ystlumod a moch daear. Bu caban 'Storiâu'r Nos' a'r gweithdy bocsus 'slumod yn hynod brysur drwy'r nos hefyd.

Elfen newydd i'r noson eleni

oedd Trên y Gwyll, lle roedd cyfle i bobl deithio ar Reilffordd Eryri o Gaernarfon i'r Waun, yn arsylwi yn ystod y daith ar wahanol gynefinoedd ac yn gwrandao ar wahanol gyflwyniadau ar faterion amgylcheddol. Cafodd y teithwyr eu tywys o'r orsaf yng ngolau fflachlampau ar hyd Pont Cynant a'r llwybrau cyhoeddus i safle'r Wyl gan weithwyr yr Antur.

Eleni eto cynhaliwyd cystadleuaeth celf 'Creaduriaid y Nos' fel rhan o'r gweithgareddau a chyflwynwyd gwobrau i'r canlynol ar y noson: Lea Owen, Sharon Hanks, Hannah Latham, Victoria Taylor, Keeley Griffiths, Eira Rhiannon, Ryan Richards, Pauline Swatridge, Gruffydd Rowlands, Sophie Richards a Charlotte Jones.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partiön, tripiâu ac ati.

Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS




Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



**Silver
STAR**

GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRŴPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Arddangosfa a Ffair Greffttau

Dydd Sadwrn, 30ain o fis Tachwedd yn Y SEFYDLIAD COFFA, LLANRUG.

Gwahoddir unigolion, a mudiadau neu grefftwyr lleol i arddangos eu gwaith, neu i werthu cynnyrch, yn yr arddangosfa a gynhelir yn Y Sefydlaid Coffa, Llanrug.

Am fwy o fanylion, cysyllter â'r Ysgrifennydd, Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug. (Ffôn: 01286 673515).

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

Am lwythi pell ac agos, cysylltwch â'r symudwr smart... Y cludwr clên...

TM JONES

Cil y Coed, Dwyran, Ynys Môn, LL61 6YD


Llwythi mawr a bach • Clirio Tai • Domestig a Masnachol • Cyngor Cyfeillgar • Prisiau Cystadleuol

Ffôn: (01248) 430 126 • Symudol (07788) 703 659

**H. E. HUGHES
A'I FEIBION**

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

*Pryd i Baub
Buiffe blasus o safon
at bob achlysur*

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

Plas Trecen, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4DY

(01286) 673190



Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor ar 8 Hydref. Cadeiriwyd gan y Cynghorydd Richard Llwyd Jones ac ef hefyd a offrymodd y weddi. Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Medi fel rhai cywir. Cyfyngwyd y rhaglen i drafod, yn bennaf, Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd, cyfraniadau i fudiadau lleol a chynnygion y Cyngor yng Nghynhadledd Cynghorau Bro a Thref Cymru yn Aberystwyth ar 12 Hydref.

Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd.

Penderfynwyd amlygu'r ffeithiau a restrir isod mewn ymateb i Gyngor Gwynedd.

Cyffredinol:

Mae gormod o ddatblygu mewn pentrefi mawr fel Bethel a Llanrug a dim digon mewn pentrefi bychain fel Penisa'rwaun, Cwm-y-Glo, Bryn'refail, Dinorwig a Seion. Pwysleisir yn ormodol ar adeiladu ystadoedd tai yn hytrach na tai ar eu pennau eu hunain yn ôl patrwm naturiol pentrefi cefn gwlad.

Tybir bod Cymru wedi disgyn i'r trap o lincil gynllunio o fewn pentref fel a wnacd yn Llocgr. Nid yw pentrefi Cymru yn disgyn i batrwm o'r fath.

Nid yw'n ddebyniol bod pentrefi fel Dinorwig, Penisa'rwaun, Gallt y Foel a Chlwt-y-Bont y tu allan i'r ffiniau cynllunio.

Gan bod yr adran addysg yn hybu crefftau fel bricio i ddisgyblion ysgol ar hyn o bryd, bydd angen gwaith adeiladu iddynt yn fuan.

Dylid sefydlu gweithfeydd bychain yng nghefn gwlad yn hytrach nag yn y trefi mawr.

Murddunod

Mae angen atgyweirio amryw o adfeilion yr ardal a'u gwneud yn anheddau unwaith yn rhagor. Rhaid cofio mai'r Cyngor lleol orfododd y trigolion allan o'r rhain i dai Cyngor.

Pentrefi:

Penisa'rwaun

Mae argymhellid i adeiladu chwech o dai y tu ôl i'r Eglwys ac wrth ochr y fynwent. Nid yw'r lleoliad yma yn addas o gwbl ac hefyd nid yw chwe ty yn ddigon ar gyfer y galw yn y pentref. Disgyn mae niferoedd yr ysgol, mae angen tai y gall teuluoedd ifanc eu fforddio.

Bethel

Plant lleol yn methu fforddio prynu tai yn y pentref. Mae lle i rai tai newydd ond am £90,000 i £100,000 nid oes gobaith i deuluoedd ifanc. Mae'r ffaith bod yr ysgol yn orlawn yn ddadl gref yn erbyn mwy o ddatblygu dwys. Mae hefyd problemau carthffosiaeth, dŵr a ffyrdd.

Seion

Nid oes bwriad yn ôl y CDU i ddatblygu yma. Mae angen tai ar gyfer plant ffermydd sy'n dymuno parhau i weithio ar eu ffermydd teuluol. Rhaid sylweddoli bod *Gors Bach, Eglwys Llanddeiniolen, Capel, Gwesty poblogaidd a sefydliad masnachol sylweddol* yn rhan o'r uned bentrefol.

Rhiwlas

Mae'r pentref wedi ei or-ddatblygu. Os derbynir y cynnig am bymtheg o dai ychwanegol rhaid sicrhau eu bod o well safon. Dylid darparu tai pedair llofft fel y gellid symud iddynt fel bo teuluoedd yn tyfu. Buasai datblygu ar y cae gyferbyn â'r ysgol yn ychwanegu at yr anhawsterau sy'n bodoli ar y ffordd gul. Hefyd mae problemau gwasanaethau.

Dinorwig

Dylid rhoi cyfle i bentrefi o'r fath ddatblygu. Mae galw dybryd am ddarpariaeth i'r henoed.

Bryn'refail

Pwysleisir ar gael safleoedd i'w datblygu.

Y Grŵp Cymunedol

Penderfynwyd cefnogi cais y grŵp am £1,500 fel cyfraniad at wella mynedfa Ystâd y Rhôs, Bethel, os bydd hyn yn dderbyniol i Gyngor Gwynedd.

Cynhadledd Cymdeithas

Cynghorau Bro a Thref Cymru
Cynhelir y gynhadledd yn Aberystwyth ar 12 Hydref. Gwneir dau gynnig ar ran Cyngor Llanddeiniolen: Cyflwyniad gan y Cynghorydd R. Len Jones: 'Mae'r gymdeithas hon yn galw ar holl Awdurdodau Heddlu Cymru i ystyried o ddifrif adfer plismona yn ein pentrefi fel mater o frys.'

Cyflwyniad gan y Cynghorydd Richard Ll. Jones: 'Mae'r gymdeithas hon yn galw ar y Llywodraeth i newid y ddeddf gosod tai Cyngor yn ei ffurf bresennol a rhoi llais i'r Cynghorydd lleol yn y dyfarniad.'

Cymorth blynyddol i fudiadau lleol

Penderfynwyd cyfrannu fel â ganlyn :-

	£
Ysgol Feithrin, Deiniolen	300
Clwb ti a fi, Penisa'rwaun	300
Neuadd Penisa'rwaun	300
Ncuadd Rhiwlas	300
Eisteddfod Bethel	200
Eisteddfod Penis'rwaun	200
Eisteddfod Gwaun Gynfi	200
Eco'r Wyddfa	300
Scindorf Arian Deiniolen	300
Llais Ogwan	50
Rygarug	200
Clwb Snwcer Deiniolen	200
Merched y Wawr Deiniolen	50
Clwb Orwig, Dinorwig	100

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd 5 Tachwedd.

Galw am Fwy o Blismyn i'r Fro

(Parhad o dudalen flaen)

ymgiprys am y tai newydd prin a adeiledir dan y cynllun arfaethedig. Mewn rhai achosion cael ty cyngor yw unig obaith rhai teuluoedd lleol i gael ty a'u galluogi i aros yn eu cymunedau. Mae enghreifftiau hefyd o deuluoedd wedi symud i'r ardal -rhaid o gryn bellter - gyda chymorth y cynllun 'New Start'. Yn dechnegol, mae rhai o'r bobl hyn yn 'ddigartref' ac yn aros mewn llochesi. Maent felly yn cael pwyntiau ychwanegol ac felly yn disodli rhai lleol ar y rhestr.

Teimlad y cyngor oedd fod hon yn system annheg. O dan y dull newydd o rannu tai cyngor y swyddogion yn unig sy'n cael gwneud penderfyniad. Gall y cynghorydd lleol drafod ond nid argymhell na phleidleisio. Dyma'r rheswm am i gyngor

Llanddeiniolen ofyn am newidiadau yn y drefn. O'r ymateb roedd yn amlwg fod hyn yn broblem oedd yn codi'i phen mewn sawl ardal o Gymru - yn drefol a gwledig. Eto cafwyd pleidlais gadarnhaol dros y cynnig.

Côr Godre'r Eifl

Enillwyr Cenedlaethol

**Am noson
o ganu amrywiol
o'r safon uchaf**

Cysylltwch â
Mrs Elenna Hughes
(Arweinydd)
Gorwel, Penrallt, Pwllheli
(01758) 612634

neu

Glynis Evans
(Ysgrifenyddes)
Heulfre, Yr Ala, Pwllheli
(01758) 612609

CYNGOR CYMUNED LLANBERIS

Clerc i'r Cyngor

Oes ganddoch chi ddiddordeb mewn materion lleol? Fedrwc chi weithio'n drefnus ac effeithiol ar eich pen eich hun, ac ysgrifennu Cymraeg cywir?

Mae Cyngor Cymuned Llanberis yn chwilio am Glerc i weinyddu a gweithredu ar ei ran. Mae'n chwilio am berson cyfrifol a brwdfrydig, byddai adnabyddiaeth o'r ardal o gymorth mawr.

Telir cyflog yn unol â Graddfa Clercod Cynghorau Lleol yn seiliedig ar nifer penodol o oriau'r mis. Telir treuliau.

Cysylltwch yn y lle cynta â Dei Tomos, Cadeirydd y Cyngor, ac anfonwch eich cais ato erbyn 20 Tachwedd 2002.

Dei Tomos, Ty'n Twll, Nantperis
(01286) 871250

Cwmni Adwy Cyf

Siop / Swyddfevdd / Gweithdai yn Neiniolen

Mae gan Cwmni Adwy Cyf Siop, Swyddfevdd a Gweithdai wedi eu hadnewyddu ar osod ar y Stryd Fawr, Deiniolen. Mae'r unedau rhwng 12m² a 74m² hefo rhent yn amrywio rhwng £67 a £358 y mis (gan gynnwys TAW a chost gwasanaeth)
(Unedau eraill ar gael yn Nhalysarn, Bethesda a Blaenau Ffestiniog)

Am fwy o fanylion cysylltwch â

Cwmni Adwy Cyf
3 Stryd y Plas, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RR

(01286) 678221

Facs: (01286) 677064



Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Ffôn: 870292

CLWB ORWIG. Ymwelodd tîm o nyrsus o Feddygfa Llanberis â'r clwb uchod yn ddiweddar, sy'n cyfarfod yng Nghanolfan Mynydd Blue Peris. Rhoddwyd gwybodaeth drylwyr am y cymorth a'r darpariaethau sydd ar gael er lles yr henoed ganddynt. Enillwyd y cwis ar lechyd yn dilyn oedd Morfudd Jones, Eve Braithwaite, Elizabeth Jones, Betty Jones a Margaret Faoukener.

Dymunwyd pen-blwydd hapus i Betty Lloyd Roberts a diolchwyd iddi hi a Katie Lloyd Hughes am y te a ddarparwyd ganddynt, ac am y gwobrau raffl a enillwyd gan Eve Braithwaite, Alice Griffith, Betty Bower a Sally Brennan. Rhoddwyd un wobwr hefyd gan Betty Jones a oedd yn methu bod yn bresennol.

Atgoffwyd yr aelodau fod y casgliad er budd 'Age Concern' i'w gynnal rhwng 23 a 28 Medi. Dathlwyd ail ben-blwydd y Clwb ar 3 Hydref gyda chinio ym Mwyty'r Felin, Canolfan Arddio Selont, Pontrug. Eve Braithwaite a Megan Morris a gafodd y fraint o dorri'r gacen ben-blwydd. Cyflwynwyd rhoddion ar gyfer y raffl gan Dennis a Joan Glass a Betty Li Roberts. Yr enillwyd oedd Andrew Griffith, Elizabeth Jones a Joan Glass. Cyflwynwyd tusw o flodau i'r trysorydd, Betty Bower, fel arwydd o werthfawrogiad o'i gwaith canmoladwy yn trefu'r dydd ar ein cyfer. Tynnwyd lluniau o'r dathlu gan John Brennan.

Y diwrnod dilynol cynhaliwyd cyfarfod 'Age Concern' Gwynedd a Môn. Fe aeth nifer o'r aelodau yno. I Glwb Oriwg y dyfarnwyd tystysgrif arbennig am wasanaeth i'r gymuned ac at achosion da a diolchwyd ar ein rhan mewn geiriau dethol gan y llywydd, John Cantrell. Ymysg y nifer fawr o

enillwyr raffl yno yr oedd Megan Morris, Betty Li Roberts a Betty Bower.

ADREF O'R YSBYTY. Da yw deall fod Mr Llew Jones, 4 Bro Elidir adref o'r ysbty ar ôl llawdriniaeth a da yw ei weld o gwmpas. Brysfa wella, Llew.

Y GANOLFAN. Yn rhifyn Mai o'r Eco bu i mi ddweud wrthyfch fod swm sylweddol o arian i gael ei wario ar y Ganolfan, ond gyda chryn siomiant mae'n rhaid dweud mai dim ond system wresogi newydd sydd wedi cael ei rhoi i fewn. Mae'r gwaith ar y Ganolfan wedi ei atal ers tua dechrau Mehefin.

Bu i'r Cadeirydd fod mewn cyfarfod hefo Mr Peter Lunt Williams o'r Swyddfa Addysg (nid oedd y pwyllgor yn gwybod dim am hyn) i drafod sefyllfa y Ganolfan. Mae pethau yn edrych yn dywyll iawn arnom gan fod amryw o bethau wedi dod i'r amlwg sydd angen sylw ac wedi rhoi'r gost i fyny yn andros o uchel. Rydym yn sylweddoli fod gan y Swyddfa Addysg adeiladau eraill yn eu gotal ac, wrth gwrs, mae hwythau yn gweithio i gyllideb. Sylweddolwn nad oes modd gwneud gwyrtiau ag arian mor brin y dyddiau yma.

Fe fydd yna bwyllgor hefo Mr Peter Lunt Williams ar 21 Tachwedd i ddweud wrthym beth fydd y sefyllfa yr adeg hynny, ond tybed a ddylasem gael pwyllgor cyn hynny gan fod tipyn o bethau i'w trin ac hefyd i edrych pryd y gallwn wneud rhyw fath o ddefnydd o'r Ganolfan.

Dyma'r tro cyntaf ers imi fod yn drysorydd (dros ugain mlynedd) imi orfod dweud fod mwy o arian yn mynd allan a dim yn dod i mewn. Mae'r clwb snwcer wedi cau, does dim codi pwysau, dim

defnydd o'r Ganolfan. Gobeithio yn arw na fydd y Ganolfan yn cau, felly mae angen pwyllgor ar frys, cyn iddi fynd yn rhy hwyr.

DATHLU YN SARDIS. Yr oedd 15 Medi yn Sul o ddathlu yn Sardis - dathlu fod y Parch Ifor Lloyd Williams, Bangor wedi bod yn Weinidog am 50 mlynedd.

Daeth i Sardis a Libanus, Clwt-y-bont yn syth wedi gorffen ei gwrs yng Ngholeg y Bedyddwyr, Bangor a'i ordeinio'n weinidog arnom ar 16 Gorffennaf 1952, er mai ym mis Medi yr un flwyddyn y dechreuodd ar ei weinidogaeth yn ein plith. Ar derfyn pedair blynedd symudodd i Dreforys ond, erbyn 1960, yr oedd yn ei ôl yn y gogledd, fel gweinidog Penuel, Bangor. Ymhen peth amser daeth Libanus a Sardis yn rhan o Ofalaeth Bangor a dyna Mr Williams unwaith eto yn weinidog arnom, hyd nes iddo ymddeol yn 1989, er y deil i ymweld â ni o dro i dro.

Y Parch Olaf Davies, ein gweinidog presennol a lywyddai'r Oedfa Ddathlu. Cafwyd adroddiad gan Manon, Megan ac Elen wedi i ni wrando hanes y Cwrdd Ordeinio gan N. Wyn Jones. Yr oedd Llyfr y Dathlu wedi ei baratoi gan Eirwyn Morris, Bangor ac i'w gyflwyno i Mr Williams, yn cynnwys atgofion yr aelodau am ei weinidogaeth a hwythau'n eu darllen i'r gynulleidfa. Yr oedd yn rhyfeddol mor amrywiol oedd yr atgofion rheini. Bonws oedd derbyn llythyr oddi wrth Harry ac Elizabeth Lewis o Awstralia yn sôn am y Beibl a gyflwynwyd iddynt ar achlysur eu priodas yn 1952 gan Mr Williams, a hithau'r briodas gyntaf iddo weinyddu ynddi.

Derbyniwyd llythyrau i gyfarch hefyd oddi wrth ddau o feibion Sardis a fu'n gyd-fyfrwyr â Mr Williams yng Ngholeg y Bedyddwyr, sef y Parchn Emlyn Jones (Tanfron Isaf) a William J. Lewis (Tan y Garret).


Yn ystod yr Oedfa bu parti o ferched Libanus yn canu rhan o

gywydd a gyfansoddwyd yn arbennig i'r Parch Ifor Williams gan y Prifardd Jams Niclas, yn ogystal ag emyn ar gyfer yr achlysur. Mair Rees Jones oedd yn cyfeilio.


Mrs Megan Morris, fel yr aelod hynaf, a gyflwynodd rodd o ddysgl arian oddi wrth y ddwy eglwys i'r Parch a Mrs Ifor Williams, a Miriam Jones, yr eneth ieuengaf yn cyflwyno basaged o flodau i Mrs Williams.

Diolchodd Mr Williams yn gynnes i bawb am eu geiriau caredig a'u hatgofion wrth ddathlu a chofio'r hanner can mlynedd o gydweithio hapus a chyfeillgarwch gynnes. Yr oedd yn ddydd o lawenydd mawr, yr haul yn disgleirio a'r capel yn llawn ac fe'i hir gofir gennym.

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646



**GWYNANT
PIERCE**

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901



CWMNI DRAMA DINORWIG. Pwy fedr ddweud pa flwyddyn y tynnwyd y llun yma o gwmni drama Capel Dinorwig.

Dyma'r enwau o'r chwith i'r dde (Rhes gofn): Gwilym Davies, 10 Bro Elidir; Helen Roberts, Dyffryn Gwlyd (Tan y Fron gynt); y

diweddar Ifor Williams, Tŷ Capel; Enid Jones, Tal-y-sarn (Cae Canol, Fachwen gynt); y diweddar Robert John Jones, 3 Maes Eilian; Enid Jones, Porthmadog (Bronallt gynt); y diweddar Owen Jones, 9 Bro Elidir a'r diweddar John Humphrey Williams, Tan y Graig.

(Rhes flaen): y ddiweddar Mrs Myfanwy Butler, Cae Goronwy; y ddiweddar Mrs Hughes, Groeslon Uchaf; y diweddar Joseph Butler, Cae Goronwy; y ddiweddar Mrs E. M. Roberts, Tan-y-fron a'r ddiweddar Mrs Dorothy Jones, Bryn Hyfryd.

Brian a Rita
Henderson
SIOP Y PENTREF
WAUNFAWR
Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

LLONGYFARCHIADAU i Cheryl, 22 Dôl Afon ar dderbyn Belt Brown mewn Karate, oddi wrth Mam, Dylan a Ffion.

Hefyd i Keith, Bryn ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed. ADREF O'R YSBYTY. Croeso cynnes adref i Mrs Enid Price, Stryd Newydd ar ôl treulio cyfnod o dros ddau fis yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Wyn Rowlands Glan'rafon ddiolch yn ddiffuant i'w deulu, ffrindiau, cymdogion a'i gydweithwyr am bob caredigrwydd a dderbyniodd tra bu'n derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

CAPEL Y TABERNACL. Pnawn dydd Mercher, 16 Hydref daeth cynulliad da i ymuno â phlant yr ysgol mewn Gwasanaeth o Ddiolchgarwch. Diolch i Mrs Mair Huws, prifathrawes yr ysgol, yr athrawesau a'r rhai sydd yn gofalu am y rhai ieuengaf, am wasanaeth o ddiolch mewn ffordd hwyliog a hapus. Rhoddwyd y Fendith i derfynu gan y Parch Gwynfor Williams.

Trefn yr oedfaon am fis Tachwedd, oill i gychwyn am 4 o'r gloch, fydd:

- 3 Parch Gwynfor Williams;
- 10 Parch O. G. Williams;
- 17 I'w drefnu;
- 24 Mr J. O. Roberts.

UNDEB Y MAMAU. Cyfarfu'r gangen yn yr Ysgol Gymuned nos Lun, 7 Hydref.

Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr oedd yng ngofal Mrs Margaret Latham. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Sandra Hughes, Mrs Kathleen Jones a'r Parch Vittoria Hancock. Darllenwyd cofnodion y cyfarfod a gafwyd ym mis Medi a phasiwyd eu bod yn rhai cywir. Trafodwyd materion oedd wedi codi gan Mrs Latham.

Gwraig wadd y noson oedd Mrs Pat Wright o gangen y Gadeirlan, a'i phwnc oedd 'Dŵr Byw'. Cafwyd noson ddiddorol iawn yn trafod y pwnc gyda hi. Y gwesteion oedd Mrs Joyce Ransom a Mrs Enid Taylor. Diolchwyd i Mrs Wright ac i'r gwesteion gan Mrs Gwyneth Roberts. Enillwyd y raffl gan Mrs Joyce Ransom. Terfynnwyd y cyfarfod drwy adrodd Y Gras.

EGLWYS SANT GABRIEL.

Cynhaliwyd yr Wyl Ddiolchgarwch dydd Sul, 13 Hydref. Fore Sul gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchedig Vittoria Hancock gyda chymorth Mr Timothy Ward. Nos Sul cafwyd Pregeth a Gosber, eto gan y Parch Vittoria Hancock a chymorth gan ein Rheithor y Parchedig Philip Hughes. Yr organyddes oedd Mrs Susan Williams, Ceunant yn y ddau

wasanaeth. Diolch yn fawr iawn iddynt am eu gwasanaeth.

Dymuna'r Rheithor a'r Wardeniaid ddiolch unwaith eto i bawb am addurno'r Eglwys mor hardd, ac am y rhoddion o lysiau, ffrwythau a blodau hardd yn ystod yr ŵyl.

NOSON GOFFI. Nos Lun, 14 Hydref cynhaliwyd Noson Goffi yn yr Ysgol Gymuned, gyda adloniant ysgafn gan y Parchedig Philip Hughes, y Parchedig Vittoria Hancock a Dr a Mrs Graham Thomas yn ein diddanu. Diolch i bawb hefyd am droi i fyny i wneud y noson yn un llwyddiannus.

Diolch hefyd a y rhoddion ariannol ac am y rhoddion tuag at y raffl. Diolch o galon i bawb am eich cefnogaeth. Yr elw at Eglwys Sant Gabriel.

Enillwyr y raffl oedd - £50: Mr Rees, Ceidio, Bethel; £30: Mr Dylan Owen, 10 Hafan Elan, Llanrug; £20: Mr Davies, 1B Corlan-y-rhos, Llanrug; Bocs o nwyddau: Mr John Bromley, 49 Tyddyn To, Porthaethwy; Bocs o lysiau: Mrs Bethan Owen, 21 Glanffynnon, Llanrug; Bocs o ffrwythau: Mrs Jones, 36 Dôl Elidir, Llanberis; Bocs o nwyddau: Mrs Roberts, 41 Bro Rhos, Bethel; Tun Bisgedi: Mr Wright Affric, Essex; Potel Sieri: Caffi Macsen, Caernarfon; Bocs nwyddau: Gwenno, Llwyncoed Bach, Cwm-y-glo; Bocs o lysiau: Mrs Hughes, Pen-buarth, Bethel; Bocs o nwyddau: Mrs Dilys Evans, Min-y-don, Brynrefail; Potel o win gwyn: Dave Evans, Caernarfon; Bag siopa: Miss Morgan, 9 Caer Saint, Caernarfon; Bocs llysiau: Mrs Jones, 25 Maes Padarn, Llanberis; Bocs coluro: Mr Derek Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis; Potel o win coch: Mrs D. Clarke, Tawelfan, Saron, Bethel; Bocs llysiau: Mrs Jones, 5 Stad Eryri, Bethel; Potel o win gwyn: Geraint, d/o Becws, Cwm-y-glo; Bocs llysiau: Mr Richard Humphreys, Oriol, Cwm-y-glo; Bocs Siocled: Mr David Jones, 2 Bryn Hyfryd, Cwm-y-glo; Gwydrau: Mrs Pitts, 5 Glanrafon Bungalows, Llanberis; Tin bisgedi siocled: Mr O. R. Williams, 29 Y Dôl, Bethel; Ornament: Mrs Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis; Potel o win gwyn: Mr D. Henderson, 3 Graig-y-don, Cwm-y-glo; Llyfr Coginio: Mrs Valmai Owen, Rhos Elan, Llanrug; Dysgl Wydr: Gemma Morris, 11 Trem Eilian, Waunfawr; Tegan meddal: Mrs Mair Davies, Llanberis (Ffôn: 872081)

Enillydd y raffl ar y noson (Jolly Mr Jingle) oedd Miss Meira Williams, Goleutryn, Cwm-y-glo.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED.

Cyfarfu aelodau'r gangen nos Lun, Hydref 14eg yng Nghaban y Cwm dan lywyddiaeth Pat Jones. Wedi darllen llythyr y mis a llongyfarch yr ysgrifenyddes Carol Houston ar ddod yn nain unwaith eto croesawodd y llywydd Wendy Jones o siop trin gwallt Llanrug i arddangos gwahanol agweddau'r grefft o goluro. Elinor Williams, Pat Jones a Gwenda Roberts o blith yr aelodau fu'n ei chynorthwyo. Rhoddwyd y baned gan Verna Jones ac enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Jennie Hughes, gan Pat Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun Tachwedd 18fed sef y Cyfarfod Blynnyddol pryd y bydd Pat Parry, Waunfawr yn bresennol fel Swyddog o Ffederasiwn Sefydliad y Merched.

CERDDOROL Llongyfarchiadau i Darren Michael, Bryngwran, Wyr Hugh a Dilys Evans, Min y Don ar gael ei ddewis i ymgymryd ag un o rannau'r tri prif gymeriad yn y ddrama gerdd *Plas Du* gan Hywel Gwynfryn a Robat Arwyn ac a gomisiynwyd gan BBC Cymru. Perfformiwyd y gwaith yn Theatr Gwynedd Bangor fel rhan o Wyl Ryngwladol Theatr Gerdd ar Hydref 24ain a'r 25ain. Bydd darllediad hefyd ar Radio Cymru ar Dachwedd 3ydd. Mae Darren yn ddisgybl yn Ysgol Uwchradd Bodedern.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD Y GYMDEITHAS.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y Gymdeithas am y tymor nos lau, Hydref 10fed. Roedd y myfyrdod dan ofal Ifanwy Jones. Cadeirydd y noson oedd Mr Gwyn Hefin Jones ac estynnodd groeso cynnes i'r gwadd y noson sef Mr Aled Jones Griffith, Carmel. Cafwyd noson arbennig o ddiddorol yn ei gwmni yn darlunio yn gelfydd a chryno orffennol, presennol a'r gobeithion am yr hyn y bwriedir ei gyflawni yn y dyfodol yng Nghanolfan Iaith a Diwylliant Nant Gwrtheyrn. Llwenydd oedd deall am lwyddiant y miloedd dysgwyr sydd wedi manteisio ar y ganolfan yn y gorffennol yn ogystal a chael gwybodaeth am y cynlluniau anturus sydd ar droed i'r dyfodol. Roedd y sleidiau detholedig a ddangoswyd ganddo yn allweddol i rediad y sgwrs. Hefyd daeth ag enghreifftiau o ddarluniau o wahanol olygfeydd o'r Nant wedi eu fframio a'u cyplysio â barddoniaeth addas ynghyd â chrochenwaith arbennig iawn, y cyfan wedi eu comisiynu gan Ymddiriedolaeth Nant Gwrtheyrn. Paratowyd lluniaeth ar y terfyn gan Ann Emlyn Owen a Lowri Roberts Williams.

Diolchwyd yn wresog am noson ardderchog i gloi'r tymor gan y Cadeirydd gan werthfawrogi yr un pryd waith y swyddogion am y flwyddyn 2002, yn arbennig felly waith yr ysgrifenyddes Mrs Eleanor Jones yn paratoi arlwy mor amrywiol a ddidorol. Anfonwyd cofion at Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc a Mrs Eirianwen Evans 1 Ffrwd Madog na fu yn hwylus eu hiechyd yn ddiweddar. Etholwyd y swyddogion ar gyfer y tymor nesaf fel a ganlyn: Llywydd, Mrs Jennie Hughes, Bryn Parc; Ysgrifennydd, Mr Gareth Llwyd Dafydd, Creigle; Is-ysgrifennydd, Mrs Dwynwen Williams, Glasfryn; Trysorydd, Mr Dafydd G. Ellis, Gweledfa.

OEDFAON.

Yn ystod y mis cynhaliwyd oedfaon arbennig. Nos Sul 13eg cafwyd neges rymus gan y Parch John Owen Bethesda gyda'r Sacrament o Swper yr Arglwydd yn dilyn. Llongyfarchwyd Miss Blodwen E. Owen, 2 Tai Orwig ein haelod hynaf, gan lywydd y mis, Mrs Jennie A. Roberts ar ddathlu ei phen-blwydd yn 96 oed y Sul hwnnw.

Cynhaliwyd dwy oedfa ar Sul y Diolchgarwch, Hydref 20fed. Yn oedfa'r prynhawn, a chynulliad teilwng yn bresennol, cymerwyd rhan gan yr ieuencid Rhian ac Anna George, Caryl ac Awen Jones, ac Amy Lambert. Ymhellach cafwyd cyfraniad gan Mr Richard Wyn Evans, Mr Norman Williams, Mrs Ifanwy Jones a Mr Gwyn Hefin Jones, Mr Robert John Williams a Mr Emyr Williams. Trefnwyd y cyfarfod gan Mrs Jennie A. Roberts. Yn yr hwyr cafwyd oedfa wresog dan ofal y Parch Trefor Jones, Caernarfon.

Bob Sul y mis hwn rydym wedi cael y cyfle i groesawu Mr Ian Long i'r oedfaon. Er nad yw Mr Long yn rhugl yn y Gymraeg mae'n mawrygu'r fraint yn fawr o gael cyd-addoli yn y gwasanaethau. Cawsom gwmni Dafydd ei fab mewn un oedfa a oedd yn blentyn llawn brwdfrydedd a'r iaith Gymraeg ar ei wefusau. Mae'r teulu wedi symud i fyw o Fethesda ar bwys yr addoldy i Fwthyn y Rhosyn.

GWASANAETHAU MIS

TACHWEDD

- 3 Mrs G. Alwena Williams, Llandona am 5.30
- 10 Y Parch Dafydd Hughes, Caernarfon am 10.00
- 17 Mr Evan Jones, Bontnewydd am 5.30
- 24 Mr John Hugh Hughes, Llanberis am 5.30

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Dyma restr o enillwyr y clwb am fis Medi: £40: Ms M.B. Davies, Bryn Eithin; £25: Mrs Hilda Bradshaw, Castle View; £10: Mr Emrys Owen, Bryn Môr.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Mr Bryn Griffiths o Benisarwaun oedd y siaradwr gwadd yn y Sefydliad ar 3 Hydref. Cafwyd sgwrs ganddo am y llestri 'Gaudy Welsh' ac roedd wedi dod ac amryw o esiamplau gydag ef. Eglurodd yn ddiddorol dros ben sut y bu i'r llestri gael eu gwneud. Diolchodd y Llywydd, Mrs Catherine Jones iddo. Ar 7 Tachwedd cynhelir y Cyfarfod Blynnyddol gyda Mrs Pat Parry fel Ymgynghorydd SYM yn bresennol.

CLWB BOWLIO. Mae tymor y Bowllo wedi dechrau eto y gaeaf yma. Mae'r Clwb yn cyfarfod ar bnawn Mawrth am 2 o'r gloch, nos Fawrth am 7.30, prawn lau am 2 o'r gloch a nos lau am 7.30. Beth am ymuno eleni? Mae rhai o'r aelodau ar gael bob amser i'ch rhoi ar ben ffordd os ydych yn chwarae am y tro cyntaf. Tâl aelodaeth am y flwyddyn yw £7.50. Croeso cynnes i bawb. Am fwy o fanylion cysylltwch â Mrs Catherine Jones, Bryn Gwenallt (ysgrifennydd) Ffôn 650242.

DATHLU PEN-BLWYDD. longyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Beti Griffith. Gorffwysfa a fu'n dathlu cyrraedd ei phen-blwydd yn 80 oed.

GENEDIGAETH. Llongyfarchiadau i Gwyn a Sioned, Cefn Waun ar onedigaeth mab bychan. Mellir, brawd bach i Tomos. Croeso i chi i bentref y Waun.

PRIODAS. Dymunwn yn dda i Tracey McDavid, Lloches ar ei phriodas â David Hull. Maent wedi ymgartrefu yng Nghaernarfon.

DYWEDDIAD. Llongyfarchiadau i Iona Williams ar ei dyweddïad hefo Eifion o Nant Peris.

GWASANAETHAU. Rhaid llongyfarch aelodau y ddwy ysgol Sul am ddysgu eu gwaith ar gyfer Gwasanaethau Diolchgarwch y capel. Mae canmol mawr yn y pentref hefyd i Wasanaeth Diolchgarwch yr ysgol a gynhaliwyd yng Nghapel Croesywaun ddydd Gwener olaf

yr hanner tymor.

DIOLCH. Tra'n sôn am weithgareddau'r ysgol rhaid diolch i'r rhai a drefnodd y cyngerdd gwerth chweil a gynhaliwyd yn y Ganolfan er mwyn codi arian i Apêl Tŷ Gobaith. Roedd côr yr ysgol yn cymryd rhan ynghyd â Chôr y pentref a Hogia'r Wyddfa ac Annette. Norman Williams oedd yn cyflwyno a chyhoeddodd bod wyth gan punt i'w drosglwyddo i'r gronfa.

DATHLU PRIODAS AUR.

Llongyfarchiadau i Mr a Mrs Hefin Jones, Fferm Glyn Afon a fu'n dathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol.

ADREF O'R YSBYTY. Groesawn Guto, mab bychan lola a Rhys, Tegannedd adref o'r ysbty yn Lerpwl.

Hefyd mae Mrs Kathrine Williams, 2 Tref Eilian adref wedi iddi dreulio cyfnod mewn ysbty ym Manceinion.

Gorfu i Rhian Llywela, Tref Eilian; Wendy Jones, Penclip; Nia Lloyd Griffith, Stad Tŷ Hen; Meirion Williams, Tref Eilian a Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart dreulio cyfnod yn yr ysbty ond da cael dweud eu bod adref erbyn hyn a hyderwn eu bod yn gwella.

Cafodd Mrs Grace Dawson, Stad Bro Waun anaf i'w llaw ond mae yn well erbyn hyn.

DIOLCH YN FAWR. Ar y rhaglen deledu 'Diolch yn Fawr' gwelsom Alun Mabon yn cael y cyfle i ddiolch i Wmffra am ei garedigrwydd tuag ato yn rhoi'r cyfle iddo gael gwireddu ei ddiddordeb a'i bleser o allu mynd o steddfod i steddfod i ganu!

COLLI SIOP. Tristwch a cholled i amryw oedd gweld Storfa Tŷ Newydd yn cau. Gobeithio yn fawr, er mwyn henoed y pentref, y bydd cyfleusterau Swyddfa Bost yn parhau yma.

Diolch i Mrs Owen a Huw am gynnal y gwasanaeth inni am y cyfnod y buont yma.

DYMUNO'N DDA. Ychydig fisoedd yn ôl roeddym yn croesawu Nyrs Delyth i'r syrjori yn lle Nyrs Bethan, a oedd wedi gadael i swydd arall. Y mis yma croesawn Doctor Esyllt yma, gan ddiolch a dymuno ymddeoliad hapus iawn i Doctor Helen.



Plant Ysgol Waunfawr.

YSGOL WAUNFAWR

Mae'r pedwar disgybl ar ddeg bach newydd wedi ymgartrefu'n hapus yma yn y Dosbarth Meithrin gyda Mrs Gwenda Griffith. Croeso iddynt hwy a Mrs Carol Jones i'n plith.

Bu'n hanner tymor prysur iawn. Treuliodd disgyblion Blwyddyn 6 dridiau yng Ngwersyll Glanllyn ar ddechrau'r tymor a chafodd pawb amser da. Yn ystod wythnos Diogelwch y Ffordd, bu Blwyddyn 1 a 2 yn mwynhau sioe gan Gwmni'r Frân Wen, a chafodd disgyblion Blwyddyn 6 hyfforddiant beics. Casglwyd y swm anhygoel o £420 tuag at NSPCC a mawr ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at yr achos.

Cymerodd plant yr Adran Iau ran yng nghyngerdd Tŷ Gobaith yn y Ganolfan gyda Hogia'r Wyddfa a Chôr y Waun. Roedden nhw'n werth ei gweld a phawb yn canmol y canu. Daeth ein ffrindiau o'r Antur draw i'r ysgol i helpu plant Blwyddyn 3 i wneud addurniadau blodau ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch a gynhelir yng Nghapel Croesywaun ar 18 Hydref am 10 o'r gloch. Diolchwn hefyd i'r Parchedig Gwenda Richards am annerch y cyfarfod. Dymunwn wyliau hapus i bawb. DYMUNA Mr ARTHUR Ellis, Min y Nant ddiolch o galon i'w briod, teulu a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 80 oed.

DYMUNA Anwen ac Iwan, Ty'n Llidiart ddiolch o galon i bawb am eu dymuniadau da drwy air, cerdyn ac anrheg ar achlysur eu priodas yn ddiweddar. Bu'r cyfan yn gyfraniad gwerth chweil tua gwneud y diwrnod yn un arbennig iawn.



Iwan ac Anwen Ellis ar ddiwrnod eu priodas.

Dewch i'r ganolfan newydd am fargeinion dodrefn



LLANRUG

yng Nghapel Mawr

LLANRUG

Ffôn: 674141

Ar agor: Llun - Sad 10-6; Sul 10-4

Rygiau, Cabinets, Byrddau, Cypyrddau dal llyfrau, Desgliau, Cadeiriau, Soffas, Gwelyau ayyb

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
• Ystafell Deulu • Ginio Dydd Sul Traddodiadol
• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: 650218



ORIEL
CWM
Cwm y Glo

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol

Richard S. Humphreys

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

CAWS A GWIN. Bu'r Noson Caws a Gwin ac Ocsiwn yn Perthi, Bryngwyn, Llanrug yn llwyddiant eto eleni. Casglwyd £1,500 yn glir i'w rannu rhwng Uned Cancr y Fron, Ysbyty Glan Clwyd; E.F.R. Epilepsy Research Foundation a Meddygfa Llanberis.

Diolch yn fawr i bawb am fod mor barod i helpu a chefnogi mewn sawl ffordd, yn enwedig Mrs Bethan Hardy ddaru hefyd drefnu'r Ocsiwn, a helpu i gael noddwyr at y Raffl a'r Ocsiwn.

Hefyd, carwn ddiolch i Dafydd Hardy fu'n Ocsiwniar hwyliog, brwdfrydig a dylanwadol ac a lwyddodd i werthu'r holl eitemau ac anrhegion a roddwyd gan gwmnïau, siopau a ffrindiau. Diolch i chi i gyd ddaru roi y gefnogaeth i mi fedru cynnal yr achlysur yma a'r rhai fu draw yn gwario.

Dyma enillwyr y raffl: Potel o win i'r canlynol i gyd: Stan Eirlys; Menna Wyn (872365); Gareth a Gwenda; Gareth Eifion; Twm John; Ifor Hughes; Rhiannon Shepherd; Marian Williams; Heulwen Glanffynnon; Martin (870012); Delyth; Morfudd Evans, Rhuthun; Dei a Dilys; Elizabeth Wright.

Cafodd y canlynol bâr o fenyg beicio: John Morfa Nefyn; Gwynfa; (870918);

Peli golff ac ambarel i Eurwyn a Garys Evans; Peli golff i Alex; Gorchudd bwrdd smwddio i Elsbeth; Sebon i Gwen Owen; Basged Flodau i Meriel Cled; Padell ffrio i Lona; Cosmetics i Anita (871855); Sebon i Enid Banc; Crys T i Meriel; Fideo pêl-droed i John Gwynedd; Tegell bach i Stan Eirlys; Canwyllau i Olive; Crys T i Nan Waunfawr; Tedi i Alun.

Roedd 42 o nwyddau ardderchog wedi eu rhai yn haal yn ogystal at yr Ocsiwn. Yn sicr achlysur i'w gofio. Diolch i bawb am ddod.

Anne Parry Jones
PLAID CYMRU. Nos Fercher, 20 Tachwedd, yng Nghanolfan Cymuned Penisarwaun bydd Cangen Llanrug yn cyfarfod i glywed Miss Gwen Aaron yn sôn am ei phrofiadau wrth deithio gwledydd pell y byd. Bu Gwen gyda ni y llynedd yn sôn am Seland Newydd, bydd ganddi

sgwrs ddiddorol a lluniau eto eleni. Croeso i bawb ddod i'w chlywed am 7.30 o'r gloch.

Yn y Sefydliad Coffa Llanrug y cynhelir y Ffair Nadolig eleni am 6.30 o'r gloch nos Fercher, 4 Rhagfyr. Bydd stondinau a rafflau o bob math yno, paned i bawb ac, wrth gwrs, bydd Siôn Corn yno yn ei ogof i weld y plant. Croeso i bawb ymuno yn yr hwyl.

YR YSGOL GYNRADD GWAITH MAES. Bu'r tywydd yn addas iawn i ddisgyblion Bl 4 a fu'n treulio dau ddiwrnod yn aros yn ysgol Rhyd-ddu ac yn dilyn gwaith maes yn yr ardal.

YMWELIAD CWMNI'R FRÂN WEN. Bu gwylio perfformiad 'Watsia' gan gwmni'r Frân Wen yn bleser a mwynhad i ddisgyblion Bl 1 a 2. Bu llawer o waith trafod yn eu mysg wedi'r perfformiad.

DERBYN GWOBRR. Derbyniodd yr ysgol gamera digidol gan BECTA, fel gwobr am gynnwys safle we yr ysgol sy'n portreadu yr ardal.

RYGBI. Bu timau rygbi Bl 3 a 4 a Bl 5 a 6 yn cystadlu yng nghystadlaethau rygbi ysgolion dalgylch Ysgol Brynrefail ar gaeau rygbi'r Morfa, Gaernarfon. Cawsant hwyl ar y cystadlu ond Ysgol Bethel ddaeth i'r brig.

DAWN SWYR. Eleni eto cafodd genethod Bl 2, wedi eu hyfforddi gan Mrs Evans, gyfle i berfformio'r ddawns flodau yn seremoni gadeirio Eisteddfod Bethel ac yn Eisteddfod Brynrefail. Mae'r perfformiad yma yn ategu at urddas y seremoni ac mae'r genethod bach yn mwynhau'r profiad.

GWASANAETH DIOLCHGARWCH. Roedd Mr Tudor Ellis a'r Parchedig Dafydd Hughes wedi trefnu i ddod atom i'r Gwasanaeth Diolchgarwch eleni ond yn anffodus methodd Mr Ellis â dod. Bu'r Parch Dafydd Hughes yn sgwrsio ac yn dangos fidio am fywyd teuluoedd gwlad Bangladesh, sy'n dioddef oherwydd stormydd o wyntoedd cryf a llifogydd. Casglwyd £120 tuag at Apêl Bangladesh ac rydym yn ddiolchgar i chi am gyfrannu.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cyfarfod o Ferched y Wawr ar nos Fawrth, 8 Hydref yn y Ganolfan Gymuned. Estynnodd Menna, y Llywydd, groeso i bawb a braf

oedd ei gweld hithau yn ymgymryd â'i dyletswyddau ar ôl gwella o'i hanaf. Cydymdeimlwyd â Bethanne ar golli ei thad yng nghyfraith. Llongyfarchwyd Bethanne, Mari Parry ac Eryl ar ddod yn neiniau a da oedd clywed fod Meirwen yn gwella.

Cynhelir Ysgol Undydd i Ddysgwyr yn Ysgol Maesincla ar ddydd Sadwrn, 2 Tachwedd a gofynnir i unrhyw un sydd â diddordeb mewn siarad â'r dysgwyr rhwng 2 a 4 y prynhawn gysylltu â Phyllis Ellis (870237).

Y gŵr gwadd oedd Twm Elias, y naturiaethwr a golygydd y cylchgrawn *Fferm a Thyddyn*. Dangosodd sleidiau ar fyd natur - gwelsom holl nodweddion y tymhorau ynghyd â nifer fawr o blanhigion ag iddynt rinweddau meddyginiaethol. Diolchwyd i Twm am ei gyflwyniad difyr a hwyliog gan Megan.

Eirianwen, Eileen a Liz fu'n paratoi'r te. Diolchwyd iddynt gan Bethanne a hi hefyd oedd enillydd y raffl.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, 12 Tachwedd gyda June Baglin, Trefor yn rhoi cyflwyniad ar drefnu blodau.

ADUNIAD. Bydd aduniad hanner can mlynedd i gyn-ddisgyblion Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Bryn Eryr (1950-52) yng Ngwesty Fictoria Llanberis nos Sadwrn, 23 Tachwedd am 7.30.

Bydd bwffe a disgo ac os am fwy o fanylion cysylltwch â Nan Evans ar (01286) 676331 neu Menna Williams, cyn 10 Tachwedd os gwelwch yn dda.

LLONGYFARCHIADAU i Idwal a Bethanne Williams, Disgwylfa ar ddod yn Daid a Nain am y tro cyntaf. Ganwyd Rhys Ifan i Morgan a Nicola. Pob dymuniad da iddynt.

Ganwyd merch fach, Heledd Sŵyn i Steve a Heulwen, 35 Glanffynnon a mab bach i Meical a Sharon, Bro Rhyddallt, croeso i Liam. Llongyfarchiadau i Derek ac Anne Owen a Gwenda Thomas ar ddod yn Daid a Nain hefyd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Einir Hughes, 34 Glanffynnon ddiolch yn arw iawn i bawb am bob dymuniad da a dderbyniodd tra roedd yn yr ysbyty.

Dymuna lolo ac Aislinn Eilian, Pen y Cae, Wrecsam (Bryn Moelyn) ddiolch yn arw i bawb am y cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth Niamh. Diolch yn fawr iawn.

BRYSIWCH WELLA Sylvia Pritchard, 15 Talybont, sy wedi bod yn yr ysbyty a hefyd Wayne Kift, yntau wedi bod yn yr ysbyty am gyfnod. Mae Wayne yn gwella yn dda iawn nawr, dal ati.

Dymuniadau gorau i Mr Selwyn Pritchard, Golygfa, Bryn Moelyn sy ddim yn dda iawn ar hyn o bryd. Gobeithio y byddwch yn well yn fuan.

Rydym yn dymuno yn dda hefyd i Ceri Owen, 5 Ffordd Glanffynnon; Linda, Bryn Eden, Ffordd Glanmoelyn; Einir Hughes, 34 Glanffynnon a Buddug Hughes, Rhes Rhyddallt sy'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty, ac hefyd unrhyw berson arall sy ddim yn dda ar hyn o bryd.

PROFEDIGAETH. Bu farw Mrs Madge Hughes, 13 Hafan Elan, Rhes Bryn Afon gynt, yn sydyn ym Manceinion ar 29 Medi. Gweddwy diweddar William Hughes oedd hi ac yn fam annwyl i Len a Stan, mam yng nghyfraith i Lindsay a Pat a nain i Rob. Gwraig annwyl iawn oedd Mrs Hughes. Bydd colled fawr i'r teulu a'i chwaer ac hefyd i drigolion Hafan Elan.



Gwyn Davies, rheolwr tîm cyntaf Clwb Pêl-droed Llanrug, yn derbyn pêl-droed newydd yn rodd gan Mike a Carrie Simms, perchenogion bwyty Gwel y Llyn, Llanberis.



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR

Gwmni teuluoel gydag 20 mlynedd o brofiad a reddeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

Jones
Contractwyr
Trydan

Goleuadau
Argyfwng ac
offic Larwm Tân

Gwasanaeth i
Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
Eisteddfod yr Urdd
a'r Genedlaethol

&

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Hweyl yng Ngŵyl Ffair Nant



Brenhines Miriam yn Eglwys St Peris
cyn agor Gŵyl Ffair Nant.



Dai Lampard yn paratoi'r polyn
seimllyd (Greasy Pole).



Gobeithio y dalith y wal y pwysa!!!



Cerddorion Gwerin yn diddanu'r dorf.



Rhan o'r dyrfa yn prynu yn y 'car bwt sêl'.



Enillwyr cystadleuaeth 'Doubles' Pwll, Sara Davies a
Richard Griffith.



Sara Davies yn cyflwyno Tlws yr Helfa Drysor i 'Driawd y
Ficerdy' set y Parch a Mrs Philip Hughes a'r Warden,
Mrs Audrey Evans.



Enillwyr y 'Robinson's Brewery Trophy' am y marciau uchaf yn y
mabolgampau - tîm Gallt-y-Glyn.

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

GŴYL FFAIR NANT (Medi 15-21)
Dydd Sul, Medi'r 15fed, 2002

Yn dilyn diwrnod o brysurdeb yn addurno Eglwys St Peris, cafwyd cymanfa ganu a sioe flodau a chrefftau benigamp ddydd Sul. Roedd llwyddiant y noson yn anhygoel o ystyried mai cwta fis fu ers bwrw ati i atgyfodi ysbryd a hwyl yr hen Ffair Nant. Cafwyd ymateb syfrdanol i'r apêl am roddion o flodau ac roedd pawb o'r farn fod rhyw gynnwrf gobeithiol cyffyrddadwy'n bresennol rhwng muriau'r hen eglwys.

Fe'n difyrrwyd gan leisau hudolus Lleisiau Lliwedd, perfformiad gwyd gan Stephanie Welsby a pherfformiad byr-fyfyf gan Alice a Sioned Cumberton. Cyflwynwyd y darlenniadau gan Mrs. Moreen Lennon (cyn-brifathrawes hen ysgol y Nant) a Mr Derek Jones. Cyfarchwyd y gynulleidfa gan y Parch Philip Hughes, Mrs Susan Williams oedd yr organyddes, Mr Gareth Jones oedd arweinydd y Gymanfa a rhoddwyd y diolchiadau gan y warden - Mrs Theresa Jones.

Mae Aelodau'r pwyllgor yn wirioneddol ddiochgar i bawb am eu cyfraniad gwerthfawr.

RAFFL: 1. Hanner oen gan Gigydd Padarn Meats - Wyn Dôl Peris, 2. Cinio Dydd Sul yng ngwesty'r Royal Victoria - Lynne, 3. Cap Baseball o'r Outsider - Pete Walker, 4. Gwin - Shirley. *Nos Iau*: Noson yr Helfa Drysor a'r cystadleuwyr brwd yn ymdrechu'n galed iawn am y wobwr gyntaf. 'Triawd y Ficerdy' (Mrs Audrey Evans a'r Parch a Mrs Philip Hughes) oedd yn fuddugol a cawsant darian a thocyn petrol £10 o Beran yn wobwr. Diolch i Sara Am drefnu'r noson. Raffl: 1. Massage gan Hillary, Llanberis - Lynne, 2. Gwin - Iola, 3. Utensils i'r gegin - Phil, 4. Crys T - Catherine, 5.6.7. Ornaments - Debbie, Dilys Mai a Bill.

Nos Wener: Noson dyngedfennol 'Twmpath Y Fwch' a chwarae teg i'r hen Blodwen, fe berfformiodd o fewn eiliadau o'i thywys i'r cael (er mawr ryddhad i'r trefnydd - John C.B.I.) Enillydd y £50 oedd sgwâr rhif 129 - Mrs Margaret Ellis. Neilltuwyd gweddill y noson i ganu Carioci yng nghwmni Elfis Preseli yn Nhy'n Llan, a chafwyd noson fythgofiadwy!

Dydd Sadwrn: fe wawriodd y diwrnod mawr a'r tywydd yn heulog a chynnes. Toc wedi naw,

Gigydd Padarn - Myrddin Pritchard, 4. Cinio i 2 yn Ty'n Llan Nant Peris - Chris Tan Gadlas, 5. Tocyn Top To Toe - Gwen Williams, 6. Cap Baseball - Outsiders - Simon, 7. Gwin - Phil, 8. Glo, Hughes a'i feibion Llanberis - Brenda, 9. Ornament - Emerson Hughes, 10. Gwin - Helen Vic, 11. Bisgedi - Hefin Llanberis, 12. Siocledi - Minnie, 13. Hamper - Trudy, 14. Menyg Outsiders - Hefin SMR, 15. Tedi Debenhams - Stephen Philips, 16. Menyg gan Outsiders - Ken SMR. Enillydd cystadleuaeth enw'r tedi oedd Ann Jones (William oedd enw'r teddi!) DIOLCH. Dymuna aelodau Pwyllgor Gŵyl Ffair Nant ddiolch o galon i bawb a gyfrannodd at lwyddiant yr wythnos mewn unrhyw fodd - bu'ch cefnogaeth hael yn arbennig iawn DIOLCH YN FAWR IAWN I BAWB!

Mulcair, Gwyn Jones, Dai Lampard, Brian RAF, Nikki a'r Parc Cenedlaethol, SARDA, Alistair - heddlu Llanberis, John Meirion Morus - Brynrefail, Kate Thoms; Catherine P Hughes (Beirniad); Meirion Pritchard Tŷ Isa; Y Frenhines Miriam 'Fron; Tim Achub Mynydd; Alun Ll Jones; Blodau Eryl; Bragddai Robinson; Elfis Preseli; Dawnsyr Delyn; Emerson Hughes; Phil a Lynne, Ty'n Coed; Brenda Tweedale a Ty'n Lon; Selyf Hughes; Eric Thomson; Yvonne Lovell; Gwesty'r Royal Victoria; Gallt Y Glyn; Caban Llanberis; Gigydd Padarn; Gwasanaeth Tân Llanberis; Hairlines; Outsider's; Glo Hughes; La Voile; Debbie Top to Toe; Sean a Sylvia; Anne a Jim Ty'n Llan.

CANLYNIADAU'R CREFFTAU: COGINIO (beirniad - Kate Thoms) PLANT - 6 BISGED: 1. Aron, 2. Aron, 3. Emma Jones. SBWNG: 1. Kelly, 2. Ceri Bryn Morris, 3. Rhian. OEDOLION: BARA BRITH - 1. Glenys Owen, 2. Sandra Hughes, 3. Brenda Tweedale. CACEN SIOGLED: 1. Beth Owen, 2. Anne Jones, 3. Val Wiggans

CACEN GRI: 1. Dilys Mai, 2. Betty Humphries, 3. Sandra Hughes GWIN CARTREF: 1. Val Wiggans SLOE GIN: 1. Sandra Hughes, 2. Beth Owen, 3. Sandra Hughes CREFFTAU (Mrs Catherine P Hughes, Beirniad) Crosio: 1. Dorothy Jones, 2. Margo Bee, 3. Dorothy Jones. Tapestry / Brodwaith - 1. Awel Hughes, 2. Anne Cumberton, 3. Sandra Hughes. CROSS STITCH: 1. Buddug Wakeham, 2. Lynne Roberts, 3. Elinor Hughes. Darlun Sidan: 1. Heledd Williams

FFOTOGRAFFIAETH: (Beirniad John Meirion Morus)

OEDOLION - LLUN O NANT. 1. Phil Roberts, 2. Gwenda Roberts, 3. Phil Roberts a Jim Cumberton. PLANT: 1. Rhian Bryn Morris, 2. Stephen a B J Jones, 3. S L Jones DAN 8 - LLUN O GLOWN: 1. Elin Tomos, 2. Sioned Cumberton, 3. Mared Morris DROS 8 - LLUN O NANT: 1. Gwen Tomos, 2. a 3. Ceri W Morris. OEDOLION: LLUN O ERYRI: 1. Moreen Lennon, 2. a 3 J Ellis a P Hughes.

Diolch i bawb a fu'n cystadlu - roedd y tri beirniad o'r farn fod y

safon yn uchel iawn.

PEN BLWYDD HAPUS i Jon Paul, 1 Bro Glyder ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 ar y 13eg o Hydref. CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad at Ann, Brian a Derek a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl - Mrs Eluned Owen, Dolwen gynt. LLONGYFARCHIADAU i Gwyn Thomas (Bron Wyddfa) a Catrin ar eu priodas ar y 19eg o Hydref. Pob hapusrwydd ar gyfer y dyfodol.

TREIALON CŴN DEFAID

Cynhaliwyd Treialon cŵn Defaid Nant Peris a'r Cylch dros ŵyl banc mis Awst. Wedi ysbaid o flwyddyn, a achoswyd oherwydd Clwyf y Traed a'r Genau, pleser oedd cyfarfod cystadleuwyr newydd i'r Treialon ond methwyd ambell i 'hen law'. Ar y cyfan roedd y Treialon yn rhai llwyddiannus iawn. Cyflwynwyd y gwobrwyau gan Mr Wavell Roberts, Llywydd. Dyma'r canlyniadau:

Dosbarth Agored

Cwpan Morris Bros

Alan Wyn Jones, Llanllyfni gyda 'JOE'; Arwel Staples, Y Bala, gyda 'SWEEP'; Don Mackay, Carmel gyda 'LASS'; Huw Owen, Caergeiliog gyda 'SCOTT'; Tecwyn Roberts, Rhostryfan gyda 'SPOT'; Norman Lewis, Rowen, Conwy gyda 'BILL'; Elwyn Griffith, Waunfawr gyda 'JAN'; Glyn Roberts, Caernarfon gyda 'GLEN'; Morris Evans, Llanymstumdwy gyda 'JAN'; E. W. Jones, Penygroes gyda 'ROY'.

Ail Ddosbarth

Cwpan Wavell Roberts

Gwilym Jones, Pandy Tudur gyda 'JESS'; Tecwyn Roberts, Rhostryfan gyda 'SPOT'; John Williams, Bethel gyda 'JILL'; Robin Owen, Rhos Isaf gyda 'DON'; Glyn Roberts, Caernarfon gyda 'GLEN'; Morris Evans, Llanymstumdwy gyda 'JEN'.

Enillwyd Tarian Gwesty'r Fictoria (y gorau lleol yn y dosbarthiadau agored a'r ail ddosbarth) gan John Williams.

Dosbarth Lleol

Cwpan Rheilffordd Yr Wyddfa

Cwpan Gwesty Dolbadarn

Donald Pritchard gyda 'MOSS'; W.A. Williams gyda 'BEN'; Brian Owen gyda 'BEN'; John Williams gyda 'JILL'; Brian Owen gyda 'SIAN'; Donald Pritchard gyda 'BEN'.

Enillwyd Cwpan Rhedwyr Eryri (Bugail Gorau) gan Cyril Humphreys, Pennal gyda FLASH. Enillydd Tlws Cwmni Titherbarn (gorau dros 50 oed) gan Donald Pritchard.

£100 - Ifor Bach; £50 - Megan Pritchard; £25 - Dafydd 872331 Tocyn Outside - Dewi Fodol HS; Tocynnau Rheilffordd Y Llyn - Ian; Potel o wisgi - M Richards Caernarfon; Glo - Andrea 872663 Olew - Elgan 870791 wisgi - E. Pritchard 01248 670 415; Sheri - Pete Walker; Wisgi - Sian Morgan 671393; 'Haversack' - R Edwards; Gwin - Ned Jones; fflachlamp - Selwyn Bara; Cyfrifiannell - Meurig; tocyn cig - Aaron Gors bach.

Hoffai'r pwyllgor ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r ardalwyr am eu cefnogaeth.



Cystadleuaeth 'Tomen y fuech.'


Nos Lun: Cafwyd noson hwyliog a hynod llwyddiannus yn chwarae bingo yn Nhy'n Llan, yng ngofal Maggie ac Ann Jones. Raffl: 1. Cinio i 2 yn Gallt Y Glyn - Mrs T Jones, 2. Trin Gwallt yn Hairlines - Maggie, 3. Basged o frwythau - Debbie, 4. canhwylau a gyfranwyd gan Anita - Yvonne, 5. Menyg o'r Energy Cycles - Llinos. *Dydd Mawrth*: trefnwyd y cwis gan Doc O'Brien, a dau dîm yn gyfartal ar y diwedd, ac felly bu'n rhaid cael 'tie-breaker'. O drwch blewyn, 'Hogia Nant' a orfu a'u gwobr oedd potel o win bob un - rhodd gan Phil a Lynne Ty'n Coed - diolch. Raffl: 1. Cinio i 2 yn Y Caban Llanberis - Mrs Margaret Ellis, 2. Pizza yn Gallt Y Glyn - Sylvia Kelly, 3. Cyw iar gan Shirley Davies - Eurwyn Thomas, 4. Gwin - Shirley Davies.

Dydd Mercher: cafwyd cystadlaethau 'doubles' difyr a brwdfrydig gyda 32 o ymgeiswyr. Enillwyd haeddiannol y darian (a gyfranwyd yn garedig gan Alun, Garreg Y Frân), oedd Richard Beudy Mawr a Sara Davies, wedi ffeinal hynod ddramatig yn erbyn Glyn a Pete. Dathlwyd diwrnod Ffair Nant yn y dull traddodiadol ENILLWYR Y

welw llinell ddi-dor o bobl yn cludo'u cacennau i'r 'Caban' i'w beirniadu. Yr un oedd y drefn yn yr eglwys hefyd gan mai yno roedd y lluniau a'r crefftau'n cael eu beirniadu.

Diolch i'r beirniad - John Meirion, Kate Tomms a Katherine P Jones am eu gwaith trylwyr. Os oedd pelydrau'r haul yn gynnes, roedd gweld cymaint o bobl yn cymdeithasu ac yn mwynhau'n gynhesach fyth. Gall pawb a fu yno dystio fod ysbryd y ffair wedi dychwelyd ac yn sail gadarn ar gyfer y flwyddyn nesaf. Enillydd y Ras Hwyaidd oedd hwyaden rhif 195 (Gina Davies), a thîm Gallt Y Glyn oedd enillwyr cwpan Robinson's am ennill y mabolgampau. Daeth holl digwyddiadau'r wythnos i ben trwy gadeirio bardd buddugol y cystadleuaeth limerig (a feirniadwyd gan Tammi, Doc a Llinos), sef Theresa Jones. Mrs Moreen Lennon oedd enillydd y limerig Saesneg. Diolch i Eurwyn Hughes am wneud y gadair.

Canlyniadau'r prif raffl: 1. Pryd o fwyd i 2 yn La Voile, Felinheli - Glenys Jones, 2. Hamper - John Jackson, 3. Hanner oen gan



Caban y Cwm Cwm-y-Glo Diwrnod Agored

14 Tachwedd 2002

Rhwng 11 a 7 o'r gloch

Dewch i weld yr ystafell gymunedol
gyda phwyslais ar Dechnoleg
Gwybodaeth


Croeso cynnes iawn i bawb

Mae Caban y Cwm yn un o

brosiectau Menter Fachwen



CROESAIR TACHWEDD



1 ar draws yn y 32 ar draws newydd, yn ôl 17 i lawr, 21 ar draws, 7 i lawr ac 24 ar draws ydi thema croesair y mis yma.

Ar Draws:

- 5 Disgrifiad o dir sy'n cynnwys gronynnau mân am fod creigiau wedi chwalu (8)
- 10 Dyn neu fachgen (5)
- 11 Rhwymyn mewn cawell gwaith gwial (3)
- 12 Jenkin, y Cymro (7)
- 13 Y rhan o'r wybodaeth sy'n fyw (3)
- 14 Yr un oedd yn byw yno yn wreiddiol (9)
- 15 Ciwb chwarae (3)
- 16 Gymdeithas o bobl o'r un grede wleidyddol (5)
- 17 Gwraig sy'n methu siarad (5)

- 20 Dod yn ôl o'r chwael fawr - dyna anhrefnus! (5)
- 23 Dewis drwy bleidlais (7)
- 27 iawn? (5)
- 28 Rhywbeth ar ffurf wy (5)
- 29 Ysgwyd gan oerfel neu ofn (5)
- 31 Arwydd o gyfnod trafferthus (3)
- 35 Rhywbeth yn llosgi (3)
- 37 Y rhai yr ydych chi'n chwilio amdanynt ran! (7)
- 39 Ebychiad yn niwedd cyfnod tawel! (3)
- 40 Y mawr gwahanol, gwahanol (5)
- 41 Troellog (8)
- 42 Pethau wedi eu casglu at ei gilydd (8)

I Lawr

- 1 6 i lawr sy'n gweithio yn yr eglwys gadeiriol (5)
- 2 a lle iddo astudio (7)
- 3 Y weithred o ymwrthod â'i Dduwdod gan Grist wrth gymryd arno natur dyn (7)
- 4 Pwrpas fflam kannwyll? (5)
- 6 Gweinidog eglwys (8)
- 8 Distryw (7)
- 9 Dynion sydd wedi priodi (4)
- 15 Ledio yn flêr er mwyn ymwneud â rhywbeth (5)
- 16 Dyna'r cwestiwn (3)
- 18 heb fod yn wirion (2-3)
- 19 Gwlad sydd â arfordir ar foroedd y Canoldir a'r Iwerydd (5)
- 22 Tôn gron (5)
- 25 Gair sy'n cysylltu - nail ai (3)
- 26 Trin toes yn anhrefnus er mwyn cael perth dwt (8)
- 27 Cerddoriaeth i gôr (7)
- 29 Er enghraifft, b, c, ch, d, dd ond nid a nac e (7)
- 30 Cadw nwyddau, a'r hanes rhwng dechrau a diwedd ymgomio! (7)
- 33 Yr ochr chiwith (4)
- 34 Yn hawdd i'w weld (5)
- 36 Yr arian a geir yn ôl wrth dalu (5)
- 38 Sied mewn steil ffasiwn newydd (3)

Yn gyntaf, mae'n rhaid i mi ymddiheuro i'r hanner dwsin ohonoch na enwyd yn rhestr ymgeiswyr y mis diwethaf. Fe gedwais y bwndel a adawyd gan ddyn y fan goch ar un diwrnod arbennig mewn cornel 'dros dro' gyda'r bwriad o'i rhoi gyda'r gweddill yn ddiweddarach - ond fe anghofiais. Sori.

Derbyniais atebion i groesair Hydref gan Olwen Jones, Bethel; Tegid Roberts, Llanrug; Megan W. Jones, Bangor; Olwen Owen, Llanberis; Mair Evans,

Caernarfon; Eluned Jones, Abererch; Megan Morris, Dinorwig; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Catherine A. Jones, Rhiw; H. O. Hughes, Pwllheli; Ceridwen Williams, Llanrug; Morrisa P. Jones, Clynnog; Ceinwen Williams, Bethel; Vera Griffiths, Llanberis; Jennie Williams, Clynnog; Rhiannon Pritchard-Jones, Clynnog; Nan Owen, Llanberis; Alvona Jones, Prestatyn; Margaret W. Roberts, Caernarfon; Myrddin Owen, Pwllheli; Nansi Davies, Rhuthun; Moreen Lennon, Llanberis; Mair Evans, Caernarfon; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; G. Gill, Bangor; Alice M. Griffith, Dinorwig; N. Hughes, Cwm y Glo; E. E. Jones, Rhoshirwaun; Eirian Roberts, Llanrug; Eluned Jones, Trefor; Pat Owen, Caerfyrddin ac un di-enw!

Cyfanswm felly o dros ddeg ar hugain.

Enillydd y mis ydi Myrddin Owen, Teifi, Pwllheli.

Llongyfarchiadau a £5 i ti.

Ar ôl cwblhau croesair Tachwedd, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, 5, Bryn Eglwys, Penisarwaun, LL55 3HE erbyn (dyddiad)



Rhagrithiwr neu biler y gymdeithas?

Treflan

YN DECHRAU TACHWEDD 3

ARGRAFFIAD NEWYDD O RHYS LEWIS, GAN DANIEL OWEN, YN Y SIOPAU O FIS TACHWEDD YMLAEN I GYD-FYND A'R GYFRES.

S4C

DRAMA NEWYDD

CHWARAEON

Cymru 2 Yr Eidal 1

Oeddech chi yno! Mae llawer ohonom yn gobeithio mai dyma'r gwir gychwyn i ddyddiau braf yn hanes pêl-droed Cymru. Y dyddiau ble gwelwn ein pobl ifanc yn crwydro o gwmpas yn gwisgo crysau pêl-droed Cymru, ac yn cael arwyr newydd.

Ie, tîm ifanc yw tîm presennol Cymru. Efallai fod hyn yn gaffaeliad, gan fod nifer ohonynt yn wir 'Fabis Marc'. A sôn am wneud ei farc! Dylasai Marc Huws fod yn derbyn clod enfawr am lwyddiant y tîm. Yr oedd yn frwydr ar y maes ond hefyd gyda dogn go helaeth o sgiliau.

Y mae'r tîm presennol yn adlewyrchu hyn. Y gyfrinach yn sicr yw'r syniad o dîm. Maent yn gweithio yn galed drostynt eu hunain - pawb â'i waith penodol yn cyfrannu i'r cyfan. Pryd, er enghraifft, yn y flwyddyn ddiwethaf welsoch chi gôl i Gymru yn deillio o gic hir i'r canol. Na, erbyn hyn gwaith pwylllog, pasio celfydd ac yna gorffen clinigol. Mae'r Cymru erbyn hyn yn chwarae â steil. Gobeithio fod hyn yn sbarduno ein hieuenctid o Sadwrn i Sadwrn. Dyma'r cyfnod i weithio'n galed ar y sgiliau elfennol ymysg ein plant oed cynradd. Mewn oes ble mae pêl-droed - i fechgyn a merched - mor boblogaidd, dyma'r cyfle i fanteisio.

Rwyf wedi gweld ambell gêm yn yr oedran yma eleni, ac wedi fy mhlesio ar yr ymgeis i chwarae y gêm basio yn hytrach na'r bêl hir.

Braf oedd darllen yn ddiweddar fod datblygiad yr academi pêl-droed, dan reolaeth timau Cynghrair Cymru, yn dderbyniol iawn i UEFA. Yn bendant cryfhau y gwreiddiau yw'r ffordd ymlaen i gynnal llwyddiant y gêm broffesiynol. Mae'n hen gŵyn gen i nad yw ein clybiau profesiynol, fel Caerdydd, Abertawe a Wrecsam, yn gwneud digon i ddatblygu chwaraewyr cynhenid Gymreig. Rhaid cyfaddef fod Caerdydd yn newid y drefn ac erbyn hyn, yn Gabbidon ac Earsheaw, mae ganddynt ddwy seren ddisglair Gymreig.

Y freuddwyd wrth gwrs, yw y gall Caerdydd ddringo trwy'r Cynghreiriau a chyrraedd y 'Premiership'. Dyma'r amser, fel y dywedais droeon, i dalentau lleol ymladd i chwarae i Gaernarfon neu Fangor yn y Cynghrair Cenedlaethol. Y mae'r safon yn gwella, ac mae chwaraewyr yn symud oddi yno i glybiau profesiynol. Gellid traethu am ddatblygiadau'r canlyniadau

diweddaraf ar sawl lefel, ond hoffwn gyfeirio at ddwy elfen yn unig.

Yn gyntaf, yr hen broblem o chwaraeon yn y Gymru wledig. Rhaid derbyn bellach mai yng Nghaerdydd y bydd pob gêm, ac anodd fydd cael tocynnau ar brydiau yma yn y gogledd. Rhaid i'n cynrychiolwyr ymladd i wneud yn sicr for mannau ar gael yn y gogledd i gael tocynnau.

Ond, yr hwb mwyaf yw i'n chwaraewyr ieuanc. Yr hwb hwnnw yw Simon Davies. Bachgen o bentref bach Solfach yn Sir Benfro - mwy i'r gorllewin na hanner Gwynedd. Dyma wir seren - i'w glwb a'i wlad. Dyma sbardun i'n hieuenctid ni yn yr ardaloedd gwledig. Os ydych chi'n gweithio'n galed ar eich gêm, mae llygaid y 'sgowts' yn siŵr o'ch darganfod, ble bynnag y boch! Oes 'na Rooney arall - gyda'r un penderfyniad - yn sgorio goliau yma ar feysydd Gwynedd o Sadwrn i Sadwrn? Y mae'r dyddiau pan mae unrhyw Gymro ifanc yn teimlo'n isradol drosodd bellach. Ni ddylem fod â chywilydd o ddilyn unrhyw dîm Cymreig bellach - mae pob un ohonynt yn rhan fechan o'r datblygiad ym mhêl-droed Cymru.

Yna'r hen ddadl ynglŷn â'r cyfryngau. Mae hyn yn siomedig. I waethgu pethau mae dadl fawr yn codi pa un yw'r gêm genedlaethol. Hen grachen, a dyw rhwygiadau wedi ffafrio neb erioed. Ein gobaith yw fod pawb sy'n cynrychioli Cymru mewn unrhyw gamp yn derbyn yr anrhydedd ac yn gwneud ei orau.

Yr wyf yn ffan mawr ac yn wrandawr cyson o 'Ar y Marc' ar fore Sadwrn. Trafod pêl-droed a'r dimensiwn Cymreig, a hynny mewn iaith mae pawb yn ei ddeall. Hoffaf yr ymchwil a wneir i ddarganfod gwir gefnogwyr y gêm, y rhai sydd ar y teras o gêm i gêm. Hoffwn weld rhaglen wythnosol ar y teledu yn deio â phêl-droed Cymru yn unig - ac nid yn unig y 'tri mawr' bondigrybwyll. Cofiwch, erbyn hyn, mae gennym BBC Cymru, HTV, S4C, S4C digidol, BBC2 Wales. Onid oes lle i hanner awr rhywle yma - mae digon o raglenni yn cael ei hail-ddangos.

Siomedig o hyd yw'r sylw at bêl-droed ar 'Y Glwb' ac mae'n siŵr mai gwaethgu fydd hi gyda gemau rhyngwladol yr hydref yn llenwi podwâr penwythnos. A beth am ambell gêm fyw o'r Cynghrair Cenedlaethol? Gan y BBC mae'r cytundeb wedi'r cyfan. Beth amdani? Bangor yn erbyn Caernarfon ar Ŵyl San Steffan yn lle 'The Great Escape' unwaith eto? Y mae gan y cyfryngau rôl bwysig i'w chwarae mewn uno ardaloedd Cymru. Ein cymhariaeth

Tenis Dan Do

A'r eira cyntaf ar y Wyddfa, da o beth yw rhoi sylw i gamp dan do. Daeth llwyddiant i dri o chwaraewyr tenis ifanc o'r ardal yn ddiweddar. Roedd tri o'r pedwar yn nhîm iau tenis y Ganolfan yng Nghaernarfon o ardal yr Eco.

Cynhaliwyd trnament yn y Rhyl ymysg aelodau o glybiau Wrecsam, Yr Wyddgrug, Rhyl, Prestatyn, Trelawnyd a

Chaernarfon. O gofio eu hoedran - i gyd yn yr ysgol gynradd - roedd yn dipyn o gamp i'r chwaraewyr gymryd rhan mewn 5 gêm sengl yr un a dwy gêm o ddyblau. Tipyn o stamina yn amlwg!

Ar ddiwedd y 'marathon daro' ail oedd ein tîm lleol. Llonyfarchiadau i Sian Evans o Benisarfaun ac Ild Speake a Gerallt Bryn Jones o Fethel.



Tlws Cynta'r Tymor (Mewn steil)



Yn y brif ysgrif y mis hwn rwy'n sôn llawer am wreiddiau'r gêm a'u pwysigrwydd. Erbyn hyn mae rhai timau ieuencid lleol yn ymestyn i dimau dan 7. Ar wahân i'r cynghreiriau ar gyfer yr oeddrannau, mae'r awdurdodau yn trefnu nifer o dwrnamentau ar gyfer y 'sêr' ifanc.

yw Iwerddon, ble mae pêl-droed yn derbyn yr un frwydr am gefnogaeth oddi wrth ddilynwyr y gemau Celtaidd cynhenid. Serch hynny, ceir rhaglen hanner awr ar Cynghrair Eiroin bob wythnos, ac mae nifer ohonom yn dilyn y gyfres 'Gêm y Celtaid?' Drwy'r rhaglen 'Sgorio' mae mwy o bêl-droed o'r cyfandir yn cael ei ddangos ar ein sgrin na phêl-droed o Gymru. Ymfalchïwn y doniau sydd yn ein tîm cenedlaethol. Beth am hawlio lle teilwng i'r gêm yn ein gwlad ein hunain.

Mae'r rheini yn bwysig gan ei fod yn gyfle i daro sylw ar ambell chwaraewr ar gyfer carfannau lleol ac ati.

Cynhaliwyd trnament dan nawdd Cynghrair Gwryfai i dimau dan 9 yn ddiweddar ar faes yr Ofal. Syniad da yw hyn, gan ei fod nid yn unig yn rhoi statws i'r gystadleuaeth ond yn rhoi maes da i'r ieuencid ddangos eu sgiliau.

Wedi cystadlu brwd Bethel 'A' ddaeth i'r brig, gan ennill pedair gêm yn erbyn Cae Glyn (4-2), Deiniolen (5-0), Bontnewydd (2-0) ac yna Dyffryn Nantlle (1-0) mewn rownd derfynol agos a chystadleuol. Llonyfarchiadau felly i Aaron Gwyn, Cerwyn, Janus, Adam, Osian, Nathan, Mathew, Gerallt, Gruffydd a Daniel. Llonyfarchiadau hefyd i'r rheolwr Alun Morris am ei amser a'i agwedd iach gyda'r plant.

Gwesty
Dolbadarn
LLANBERIS Ffôn: 870277



Aim groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang
o Welyau a 3P/Suites.
Llenni Venetian a Llenni Roler.
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc - allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher